

# TREFNU PROFIAD GWAITH YN Y SECTOR IECHYD YNG NGHYMRU



## Cynnwys

<b>Cydnabyddiaeth</b>	<b>2</b>
<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Adran 1</b> Pam mae profiad gwaith yn bwysig	<b>5</b>
<b>Adran 2</b> Chwalu rhai chwedlau am brofiad gwaith ar gyfer y grŵp oed 14-19	<b>7</b>
<b>Adran 3</b> Profiad gwaith: y darlun mwy	<b>9</b>
3.1 Beth yw profiad gwaith?	9
3.2 Y cyd-destun addysgol	10
3.3 Gweithgareddau perthynol	11
3.4 Ystyriaethau ymarferol	12
3.5 Deilliannau	13
3.6 Enghreifftiau o ddatblygu sgiliau drwy brofiad gwaith	13
<b>Adran 4</b> Profiad gwaith: sut i wneud hyn	<b>15</b>
<b>Adran 5</b> Arfer da wrth reoli rhaglenni profiad gwaith	<b>19</b>
<b>Adran 6</b> Amlinelliad o'r broses	<b>23</b>
<b>Adran 7</b> Profiad gwaith i oedolion	<b>27</b>
<b>Adran 8</b> Cysylltiadau defnyddiol	<b>31</b>
<b>Adran 9</b> Templedi	<b>33</b>
Templed 1: Sampl o bolisi profiad gwaith	34
Templed 2: Cais am leoliad profiad gwaith	36
Templed 3: Holiadur iechyd cyfrinachol cyn-lleoliad	38
Templed 4: Enghraifft o asesiad risg	39
Templed 5: Hysbysiad risg: Disgyblion ysgol yn y gweithle	41
Templed 6: Rhestr wirio o'r risgiau a ddiogelwyd gan gyflogwyr ar gyfer ysgolion	42
Templed 7: Cytundeb Profiad Gwaith	43
Templed 8: Taflen wybodaeth ar gyfer lleoliad	44
Templed 9: Tasgau clinigol a awgrymir ar gyfer myfyrwyr profiad gwaith	47
Templed 10: Rhestr wirio ymsefydlu	48
Templed 11: Dyddiadur dyddiol	49
Templed 12: Ffurflen werthuso: Cyfrinachol	50
Templed 13: Adroddiad y goruchwyliwr	52
<b>Adendwm cyfreithiol</b>	<b>53</b>

## Cydnabyddiaeth

Rydym yn hynod o ddiolchgar i Gyflogwyr GIG sy'n rheoli Gyrfa GIG yn Lloegr [www.nhscareers.nhs.uk/index.shtml](http://www.nhscareers.nhs.uk/index.shtml) am ganiatáu i ni ddefnyddio eu pecyn cymorth 'Trefnu profiad gwaith yn y GIG' fel sylfaen i ganllaw modern yng Nghymru. Mae hyn wedi ein galluogi i ddatblygu pecyn cymorth sy'n adlewyrchu'r arfer da sy'n bodoli yng Nghymru ac arweiniad priodol sy'n berthnasol i Gymru.

Byddem hefyd yn hoffi diolch i'n huwch-reolwyr sy'n cynnig cynlluniau profiad gwaith yn GIG Cymru ar hyn o bryd. Heb eu cymorth a'u brwdfrydedd nhw, ni fyddai'r pecyn offer hwn wedi adlewyrchu realiti profiad gwaith ac ni fyddai wedi rhannu cynifer o enghreifftiau o arfer da ychwaith.

### Mae pob Bwrdd Iechyd yng Nghymru wedi cefnogi'r datblygiad hwn drwy rai neu bob un o'r canlynol:

- anfon cynrychiolwyr i'r ymarfer ymgynghori ym mis Tachwedd 2008
- cynnig gwybodaeth am eu cynlluniau eu hunain
- enwi myfyrwyr fyddai wedi cyflwyno sylwadau ar eu profiad gwaith eu hunain

## Rhagair

Amcangyfrifir bod y sector iechyd yng Nghymru yn cyflogi rhyw 129,000 o bobl [1], a'r GIG yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru. Mae'n cynnwys ysbytai, meddygfeydd, deintyddfeydd, y gwasanaethau ambiwlans, cartrefi nyrsio, meddyginiaeth gyflenwol ac ystod anferth o weithgareddau eraill sy'n berthnasol i iechyd, o brofion llygaid optegwyr i waith ymchwil mewn labordai meddygol. Mae'r ystod o gyfleoedd swyddi a gyrfaoedd yn anferth, o feddygon a nyrsys i beirianwyr a garddwyr. Mae gan bob un rhan bwysig i'w chwarae i helpu i sicrhau gofal safonol i bobl Cymru.

Mae'n bwysig arddangos y sector a'r pethau gorau sydd ganddo i'w gynnig i'r rhai sy'n ystyried gyrfa mewn iechyd: swyddi boddhaus ac amrywiol, cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a datblygu gyrfa – a rhan mewn cyfrannu at iechyd a gofal cymdeithasol o safon byd-eang i bobl Cymru.

I ddenu'r staff gorau ar bob lefel ac i gadw'r bobl hyn, mae cyfrifoldeb ar y cyflogwyr i gefnogi gweithgareddau i sicrhau bod cyfleoedd mewn iechyd yn cael eu hysbysu'n glir. Un dull o wneud hyn yw cyfranogi mewn profiad gwaith.

Yn 2007, ffurfiwyd Partneriaeth Strategol Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad i'r Sector Iechyd dros Gymru gyfan (CIAG)<sup>[2]</sup> i gydweithio i gefnogi'r agenda gyrfaoedd yng Nghymru.

Cytunodd y Partneriaeth mai un o'r prif flaenoriaethau oedd edrych ar y profiad gwaith oedd yn cael ei gynnig o fewn y sector iechyd ac i weithio ar ddulliau o hybu a chefnogi ei ddatblygiad. Ar gyfer pobl ifanc, mae'n gyfle i brofi gwaith o fewn iechyd, i weld beth sy'n digwydd o fewn swydd ac i wneud penderfyniadau deallus am opsiynau gyrfa yn y dyfodol. Mae'n dangos bod cyfleoedd o fewn y gymuned leol i gael gwaith all gynnig cyfle a bodddhad.

O gofio ei faint a'i bwysigrwydd strategol, mae'n rhaid i'r sector iechyd arwain drwy esiampl a gweithio gyda phobl ifanc ac oedolion i wneud y profiad gwaith yn brofiad cadarnhaol a realistig. Lluniwyd y pecyn cymorth hwn i gefnogi'r broses, i chwalu'r chwedlau ac i roi enghreifftiau da o sut gall hwn weithio gyda'r templedi angenrheidiol i gefnogi'r broses profiad gwaith. Gobeithio y byddwch chi'n teimlo bod hwn yn ddefnyddiol a'i fod yn rhoi sylfaen i chi gysylltu â'ch gweithlu posibl ac, mewn modd ehangach, creu perthnasoedd gyda'ch cymunedau lleol.



*Stephen Griffiths*

### Stephen Griffiths

Cyfarwyddwr, Datblygu'r  
Gweithlu Asiantaeth  
Genedlaethol Arwain  
ac Arloesi mewn  
Gofal Iechyd



*John Rogers*

### John Rogers

Prif Weithredwr  
Sgiliau ar gyfer Iechyd

[1] Asesiad o Ddeallusrwydd Sgiliau a Marchnad Lafur Cymru 2011

[2] Mae Partneriaeth Strategol Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad Gyrfaoedd Cymru yn cynnwys Gyrfa Cymru (sy'n ymgorffori'r EBP, Llinell Gymorth Gyrfaoedd a Chyngor Dysgu), Canolfan Byd Gwaith, NLIAH a Sgiliau ar gyfer Iechyd



# ADRAN 1

## PAM MAE PROFIAD GWAITH YN BWYSIG

**Mae profiad gwaith yn galluogi cyflogwyr iechyd i ddylanwadu ar ansawdd a hyblygrwydd y gweithlu yn y dyfodol. O'u cyflawni'n dda, bydd rhaglenni profiad gwaith yn denu cyflogai'r dyfodol ar draws y bwrdd.**

Gall rhaglen effeithiol arddangos gwaith nyrsys, meddygon, gwyddonwyr gofal iechyd a therapyddion ynghyd â chogyddion, gofalwyr tai, rheolwyr, cyfrifwyr, trydanwyr, ysgrifenyddion, teleffonyddion, porthorion, gweithwyr cefnogi gofal iechyd, staff TG a'r holl rolau eraill sydd eu hangen o fewn y sector iechyd yng Nghymru ar gyfer yfory – pa un a ydy'r sefydliad yn un GIG, annibynnol neu trydydd sector. Bydd profiad gwaith yn gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o'r ystod anferth o gyfleoedd sydd ar gael mewn rolau clinigol ac anghlinigol o fewn y GIG a'r sector iechyd ehangach.

Mae cynnig profiad gwaith hefyd yn cyflawni cyfrifoldeb corfforaethol ehangach i bobl ifanc mewn addysg ac i eraill sy'n ei chael hi'n anodd cael hyd i waith. Mae'n rhaid i bob cyflogwr alluogi disgyblion ysgol i gael profiad o waith fel rhan annatod o'u haddysg. Rhaid i gyflogwyr iechyd cyhoeddus, annibynnol a thrydydd sector yng Nghymru wynebu eu cyfrifoldeb a manteisio ar y cyfle mae'n ei gynnig i ddenu'r bobl fwyaf galluog a gorau i yrfa yn y sector iechyd.

Mae'r pecyn hwn yn cynnig gwybodaeth ac adnoddau i'ch helpu i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr. Mae'n tynnu oddi ar arfer da sydd wedi'i sefydlu mewn nifer o ardaloedd. Bydd yr adnoddau'n defnyddio wrth ddatblygu rhaglenni profiad gwaith bywiog a grymus, gan ddangos yr amrywiaeth o yrfaedd boddhaus o fewn y GIG a'r sector iechyd ehangach.

### Buddiannau profiad gwaith

#### I sefydliadau iechyd:

- Mae'n helpu i ehangu mynediad drwy gyfoethogi'r gronfa dalent y bydd yn bosibl denu recriwtiaid y dyfodol ohoni
- Mae'n datblygu mwy o ymwybyddiaeth o'r ystod eang o swyddi sydd ar gael wrth gyflenwi gofal iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau
- Mae'n cyflawni cyfrifoldeb corfforaethol pwysig o fewn y gymuned leol
- Mae'n gwella proffil sefydliadau iechyd mewn ysgolion, mewn addysg bellach (AB), addysg uwch (AU) a'r gymuned ehangach
- Mae'n dangos realaeth swydd i fyfyrwyr ac felly'n gostwng y nifer fydd yn disgyn allan o gyrсияu.

#### Ar gyfer staff y sector iechyd sy'n ymwneud â'r rhaglenni:

- Mae'n caniatáu i'r rhai heb gyfrifoldeb rheoli ddatblygu sgiliau newydd mewn goruchwyliaeth a mentora, fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus
- Mae'n annog adlewyrchu ar sut mae pobl ifanc ac eraill yn edrych ar y gwaith maen nhw'n ei wneud
- Mae'n cynnig cyfle i staff rannu eu brwdfrydedd am eu gwaith a'u pryder am ofal da i gleifion.

#### Ar gyfer myfyrwyr ysgolion, colegau a phrifysgolion:

- Mae'n caniatáu i bobl ifanc wneud dewisiadau mwy deallus am yrfaedd yn y dyfodol drwy brofi eu rhagdybiaethau
- Mae'n dangos yr amrywiaeth anferth o swyddi sydd ar gael – clinigol ac anghlinigol – o fewn iechyd
- Mae'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ynghlwm wrth gyflenwi gofal iechyd
- Mae'n gwella'r potensial, yn arbennig gan y gall profiad gwaith fod yn elfen hanfodol o gais y rhai sy'n ystyried gyrfaedd clinigol, am gwrs addysg uwch.

#### Llais profiad

– Mae profiad gwaith yn dwyn ffrwyth

*Yn 16 oed, nid oedd gen i syniad beth oeddwn am ei wneud, roeddwn i'n agored i unrhyw syniad. Roedd fy mamgu'nain wedi bod yn nyrs, felly meddyllais y byddwn yn cael golwg ar y maes hwnnw. Cefais leoliad ar Glyder, y Ward Cardioleg, yn Ysbyty Gwynedd. Ar sylwi oeddwn yn ei wneud fwyaf yn ystod fy lleoliad ynghyd â helpu'r cynorthwy-wyr gofal iechyd. Cefais ganiatad i arylwi ar osod rheoliadur – fy moment fawr. Roedd hwn yn brawf da. Roedd yn dangos i mi'r hyn y gallwn ymdopi ag ef. Roedd y staff yn hyfryd yn y modd roedden nhw'n fy nerbyn ar y ward. Ni allen nhw fod wedi gwneud mwy. Roedden nhw'n gwneud i mi deimlo fel rhan o'r tîm. Roedd pawb am i mi weld popeth oedd ynghlwm yn y rôl.*

*Deuthum oddi yno wedi dysgu'r hyn roedden nhw'n ei wneud go iawn mewn ysbyty a'r hyn oedd ynghlwm ym mhob swydd. Pan oeddwn i'n dechrau gweithio, defnyddiais fy mhrofiad gwaith i gael swydd fel cynorthwy-ydd gofal iechyd ar Aran, y Ward Clust, Trwyn a Gwddf. Mae fy swydd bresennol fel cynorthwy-ydd hyfforddi'n disgwyl i mi addysgu ac asesu'r cadlanciau nyrsio. Yn fuan, byddaf yn dechrau fel technegydd meddygol brys dan hyfforddiant yn yr Ymddiriedolaeth Ambiwylans. Felly, roedd fy mhrofiad gwaith nid yn unig yn ddechrau swydd ond yn ddechrau ar ddatblygu gyrfa mewn iechyd.*

**Menna Davies**, Felin Hen, Bangor

## ADRAN 2

# CHWALU RHAI CHWEDLAU AM BROFIAD GWAITH AR GYFER Y GRŴP OED 14-19

**Chwedl:** Mae myfyrwyr profiad gwaith angen trefniadau yswiriant arbennig.

**Realaeth:** Bydd myfyrwyr profiad gwaith yn y GIG wedi'u cynnwys yn y Gronfa Risg Cymru ac mewn mannau eraill gan bolisiau Atebolwydd Cyflogwyr ac Atebolwydd Cyhoeddus os bydd yr yswirwyr wedi'u hysbysu (gweler esiampl o ffurflen hysbysu yn nhempled 5) ac arwyddir cymal cyfrinachedd (gweler templed 7). Bydd grwpiau sy'n ymweld wedi'u cynnwys yn eich yswiriant atebolwydd cyhoeddus arferol.

**Chwedl:** Mae cyfrinachedd cleifion yn atal profiad gwaith mewn nifer o feysydd clinigol.

**Realaeth:** Rhaid cynnal urddas a chyfrinachedd cleifion. Mae hwn wedi'i ysgrifennu i mewn i'r cymal cyfrinachedd y mae myfyrwyr profiad gwaith yn cytuno i gydymffurfio ag ef wrth arwyddo. Rhaid ymgynghori â chleifion am bresenoldeb myfyrwyr profiad gwaith ac ni fydd y mwyafrif yn gwrthwynebu. Mae meysydd clinigol lle na fydd yn briodol i ddisgyblion iau a myfyrwyr. Fodd bynnag, nid oes llawer o'r rhain ac mae'n bwysig bod pobl ifanc yn cael y cyfle i brofi rolau clinigol ac anghlinigol sy'n digwydd o fewn cyflenwi gofal iechyd.

**Chwedl:** Mae profiad gwaith yn creu problemau gyda gwiriadau CRB (Swyddfa Cofnodion Troseiddol) a diogelu plant.

**Realaeth:** Gydag ychydig o eithriadau, nid oes angen gwiriadau CRB ar gyfer myfyrwyr profiad gwaith o dan 18 oed fydd yn cael eu goruchwyllo drwy gydol eu lleoliad. Fel arfer, bydd angen gwiriadau CRB ar fyfyrwyr addysg uwch ar leoliadau gwaith yn unig fel rhan o'u cwrs clinigol. Nid oes yn rhaid cynnal gwiriadau pellach os bydd y sefydliad addysg uwch wedi gwneud hynny'n foddhaol ar ddechrau cwrs y myfyrwyr.

**Chwedl:** Ni ellir derbyn myfyrwyr profiad gwaith oherwydd materion iechyd a diogelwch.

**Realaeth:** rhaid cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch ar gyfer y lleoliad a gwiriadau iechyd galwedigaethol safonol hefyd fel ar gyfer unrhyw recriwt newydd (gweler templedi 3 a 4).

**Chwedl:** Mae'n ormod o drafferth i ni ddelio â hyn ar ein pen ein hunain.

**Realaeth:** Gyrfa Cymru yw'r corff sy'n ymwneud â chefnogi rhaglenni profiad gwaith ar gyfer myfyrwyr 14-19 oed mewn addysg amser llawn yng Nghymru. Gallan nhw helpu gyda'r rhan fwyaf o'r cynllunio a'r gweinyddu. (Gweler Cysylltiadau Defnyddiol.)

**Chwedl:** Mae'n haws caniatáu i blant staff ddod i mewn ar brofiad gwaith a pheidio â chreu cyfleoedd i eraill.

**Realaeth:** Mae cysylltiadau drwy deulu a ffrindiau'n aml wedi creu cyfleoedd profiad gwaith. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r rhain fynd drwy'r weithdrefn safonol sydd gan sefydliad iechyd i hysbysu'r bobl berthnasol, arwyddo cymalau cyfrinachedd, cynnal asesiadau risg ayyb. Mae'n rhaid i gynllun profiad gwaith ehangu cyfleoedd a bod ar gael i bawb y mae'r sefydliad GIG lleol yn eu gwasanaethu. Mae cyfyngu cyfleoedd o'r fath i deulu a ffrindiau'n annheg ac anghyfartal. Mae'n creu ei risgiau ei hun o ymweliadau heb oruchwyliaeth. Mae'n methu â defnyddio ymgeiswyr lleol awyddus nad sy'n ddigon ffodus i fod â chysylltiadau o'r fath. Am resymau fel asesiad risg, cyfrinachedd cleifion, rheoli heintiau, diogelu plant, iechyd a diogelwch, polisiau trais ac ymosodedd ayyb, rhaid i bob ymgeisydd profiad gwaith fynd drwy'r system.

### Llais profiad ar lefel Adran – Profiad Gwaith Mamolaeth

*Rydym wedi bod yn cymryd myfyrwyr profiad gwaith mewn mamolaeth am tua phedair blynedd. Credaf mai ni yw'r unig uned famolaeth yng Nghymru sy'n cynnig profiad gwaith. Mae hyn wedi cynyddu'r nifer o geisiadau oddi wrth fyfyrwyr ac felly, er mwyn sicrhau lle i bawb, dim ond diwrnod cyflwyno ynghyd â dau ddiwrnod o brofiad o fewn y gwasanaethau mamolaeth y gallwn eu cynnig. Rydym yn derbyn tua 30 o fyfyrwyr bob blwyddyn er bod y rhestr aros weithiau'n cyrraedd 70.*

*Mae pwysau ar leoliadau gan fod gennym gymaint o wahanol fathau o fyfyrwyr ar draws yr uned. Er enghraifft, gwelwyd 100% o gynnydd yn y nifer o hyfforddai bydwreigiaeth ar leoliadau o'n prifysgol leol. Cefais gryn drafferth i dderbyn myfyrwyr profiad gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd y cynnydd yn y nifer o leoliadau myfyrwyr eraill.*

*Roedden ni'n cyflwyno profiad gwaith i gynnydd i fyfyrwyr oedd â diddordeb mewn gyrfa mewn bydwreigiaeth, gipolwg realistig i'r proffesiwn. Yna, gallan nhw benderfynu ai hon oedd yr yrfa iddyn nhw. Mae'r adborth o brifysgolion lleol wedi bod yn gadarnhaol iawn gan eu bod wedi gweld bod y myfyrwyr hyn yn fwy parod ar gyfer cyfweiliad. Mae nifer o'n myfyrwyr wedi llwyddo i gael lle mewn prifysgol ac nid oes un o'n rhai ni wedi disgyn allan yn ystod yr hyfforddiant.*

**Louise Williams**, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

## ADRAN 3

# PROFIAD GWAITH: Y DARLUN MWY

**Mae'n holl bwysig bod disgyblion ysgolion yn gwybod beth sy'n cael ei gynnwys a'r hyn y gallan nhw ei ddisgwyl. Mae'n rhaid briffio staff goruchwyllo a'r rhai sy'n gweithio ochr yn ochr â disgyblion ysgolion, yn gywir.**

### 3.1 Beth yw profiad gwaith?

Fel arfer, mae profiad gwaith yn cael ei ddiffinio mewn addysg fel gweithgaredd lle mae myfyrwr yn cyflawni tasg arbennig fwy neu lai fel cyflogai ond gyda'r pwyslais ar agweddau dysgu o'r profiad.

#### **Fodd bynnag, yn ymarferol, defnyddir profiad gwaith weithiau fel term ymbarél i gynnwys profiadau eang gan gynnwys:**

- Profiad gwaith ar gyfer y rhai mewn ysgol/coleg
- Dysgu drwy weithio fel rhan o gwrs
- Arsylwi gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer mynediad ar gwrs
- Lleoliad ymarferol ar gyfer israddedigion ar gyrсияu gofal iechyd mewn prifysgolion
- Sesiwn profi neu weithgaredd tebyg.

Mae profiad gwaith yn rhoi cyfle i ddisgyblion ysgolion ac eraill brofi byd gwaith drwy raglenni strwythuredig gan gynnwys cysgodi staff yn y gweithle a gwneud tasgau maen nhw'n abl i'w cyflawni. Ar gyfer disgyblion 14-16 oed, mae'n gyfle i ddysgu am ddisgyblaethau cyffredinol gwaith ac ymarfer sgiliau allweddol. Ar gyfer myfyrwyr 16-19 oed, mae'n bosibl y bydd profiad gwaith yn canolbwyntio fwy ar yrfa neu wedi'i lunio i gefnogi astudio pwnc neu gwrs.

O fewn gofal iechyd, mae hyn yn codi cwestiynau o'r hyn sy'n rolau priodol i bobl ifanc – ac arwyddocâd cyfrinachedd cleifion. Fodd bynnag, mae ystod eang o waith clinigol ac anghlinigol y gallan nhw gymryd rhan ynddo fel arsyllwyr ac fel cyfranogwyr mewn rhai tasgau.

#### **Dyma rai enghreifftiau o'r rolau a all gefnogi rhaglen profiad gwaith:**

- nyrsys
- gweithwyr cefnogi gofal iechyd
- proffesiynau iechyd cysylltiol fel ffisiotherapyddion a dietegwyr
- gwyddonwyr gofal iechyd fel radiograffwyr, awdiolegwyr, gwyddonwyr a pheirianwyr biofeddygol
- clercod ward
- meddygon
- porthorion
- arlwy-wyr
- gwragedd cadw tŷ
- garddwyr, staff cynnal a chadw a staff ystâd eraill
- cynorthwy-wyr swyddfa
- ysgrifenyddion
- gweinyddwyr a rheolwyr
- rhai'n gweithio o fewn TG
- llyfrgellwyr
- staff gwybodeg
- rhai'n gweithio o fewn adnoddau dynol
- cyllid a chyfrifon

Y rheol bwysig yw bod yn rhaid cael caniatâd y claf yn gyntaf i wneud pob tasg sy'n ymwneud â chyswllt â chleifion a bod yn rhaid **goruchwyllo'r** disgyblion/myfyrwyr bob amser.

### Gall tasgau clinigol sy'n briodol i bobl ifanc gymryd rhan ynddyn nhw gynnwys:

- Cynorthwyo gyda gwneud gwelyau
- Cysgodi nyrs neu gynorthwy-ydd gofal iechyd
- Cymryd a chofnodi pwysedd gwaed, tymheredd a chyfradd calon claf a chwblhau siartiau diodydd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol
- Cynorthwyo gyda phrydau bwyd
- Sgwrsio gyda chleifion
- Helpu gyda chlinigau.

(Gweler templed 9 i gael rhestr sampl o dasgau clinigol y cytunwyd arny nhw).

Gall cyfnod rhaglenni profiad gwaith amrywio o 'sesiynau profi' o ddiwrnod neu hanner diwrnod yn unig i wythnos, pythefnos neu raglenni sy'n ymestyn dros dymor neu flwyddyn academaidd. Bydd enghreifftiau o'r rhain i gyd yn y pecyn hwn.

### 3.2 Y cyd-destun addysgol

O 2008 disgwylir i ysgolion a cholegau yng Nghymru seilio eu gyrfaoedd a'u darpariaeth byd gwaith ar y ddogfen 'Gyrfaoedd a'r byd gwaith: fframwaith ar gyfer pobl ifanc 11 i 19 oed yng Nghymru'. Mae'r fframwaith hwn yn pwysleisio pwysigrwydd profiad uniongyrchol yn y gweithle drwy'r hyn a elwir yn 'brofiad yn canolbwyntio ar waith'. Mae profiad sy'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys profiad gwaith a gweithgareddau a phrofiadau eraill sy'n cyfarparu myfyrwyr yn uniongyrchol yn eu dealltwriaeth a'u medr yn y byd gwaith.

#### Mae dysgu drwy weithgareddau'n canolbwyntio ar waith yn rhan hanfodol o yrfaedd a byd gwaith. Gall y gweithgareddau hyn gynnwys:

- Blociau byr o brofiad gwaith
- Profiad o weithle
- Profiad gwaith estynedig
- Lleoliadau gwaith wedi'u hamserlenni'n wythnosol
- Cysgodi gwaith.

Mae disgwyl bod profiadau'n canolbwyntio ar waith yn cynnwys y profiad uniongyrchol gorau posibl o fyd gwaith. Gall disgyblion ysgol gyflawni profiad gwaith yn ystod Blynnyddoedd 10 ac 11 pan fyddan nhw rhwng 14 ac 16 oed. Ar gyfer myfyrwyr hyn rhwng 16 ac 19 oed, mae'n bosibl y bydd tystiolaeth o brofiad gwaith neu wirfoddoli'n hanfodol i'w cais i brifysgol – yn arbennig os bydd y cwrs maen nhw'n fwriadu ei ddilyn yn glinigol neu'n alwedigaethol. Ar gyfer israddedigion a graddedigion, gall cyfnodau o brofiad gwaith eu helpu i benderfynu ble byddan nhw am ddechrau ar eu gyrfa.

Pa bynnag gwrs mae disgyblion ysgol yn ei ddilyn, bydd ganddyn nhw amcanion dysgu i'w cyflawni yn ystod eu profiad gwaith a byddan nhw'n cadw cofnod o hyn. Bydd rhai myfyrwyr yn dilyn cyrsiau galwedigaethol lle bydd profiad gwaith go iawn yn elfen bwysig o'r cwrs. Felly, mae'n hanfodol bod cyflogwyr GIG yn ymateb i'r galw hwn er mwyn cynnal diddordeb cyflogai posibl.

Un datblygiad pwysig yw'r Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a luniwyd i ategu ac adeiladu ar strwythurau presennol i wireddu potensial llawn myfyrwyr a chydnabod eu cyraeddiadau. Mae Craidd Bagloriaeth Cymru, y mae'n rhaid i'r holl fyfyrwyr ei gwblhau, yn datblygu'r sgiliau y mae cyflogwyr yn awyddus i bobl eu cael – ac yn datblygu'r unigolion cyflawn y mae cyflogwyr eu hangen drwy ei gydrannau sy'n cynnwys gwaith gyda chyflogwyr. Ochr yn ochr â hyn, mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn gofyn am gymwysterau dewisol – TGAU, safon uwch, cymwysterau'r FfCCh a chymwysterau sefydledig, gwerthfawr eraill Mae'n cynnig hyblygrwydd i fyfyrwyr arbenigo, os byddan nhw'n dymuno neu i ychwanegu gorwelion pellach i'w hastudiaethau.

Oherwydd bod profiad sy'n canolbwyntio ar waith, gan gynnwys profiad gwaith, yn rhan annatod o gwricwlwm ysgol, Gyrfa Cymru yw'r asiantaeth sy'n gallu cymryd y rôl o gysylltu ysgolion a chyflogwyr i ddatblygu rhaglenni a chefnogi lleoli myfyrwyr. (Gweler Cysylltiadau Defnyddiol ar gyfer manylion cyswllt).



### Llais profiad

– ymgeisio am feddygaeth

*Yn 17 oed, roeddwn i'n ystyried gwneud cais ar gyfer meddygaeth mewn prifysgol. Cysylltwyd fi â'r Ganolfan i Israddedigion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf. Cynigiodd y Ganolfan ddau gyfle i mi fynychu'r Gweithdy Ymarferol, diwrnod cyfan o ryngweithio sgiliau clinigol a'r ail, lleoliad arsylwi am wythnos. Derbyniais y ddau. Roedd yr wythnos arsylwi'n gwneud i mi sylweddoli faint o waith papur roedd yn rhaid i feddygon ei wneud, nid dim ond cyfarch cleifion – fel yn yr Adran Mân Ddamweiniau. Nid oedd hyn yn gwneud i mi ddigalonni. Gwelsom ystod eang o glinigau cleifion allanol a chawsom arsylwi ar lawdriniaeth yn y theatr hyd yn oed. Roedd meddygon yn barod i drafod yr hyn maen nhw'n ei wneud gyda ni. Roeddwn ni hefyd yn elwa o sgwrsio â'r myfyrwyr meddygol oedd ar leoliad. Rydw i yn y broses o wneud cais ar hyn o bryd. Cefais rai cyfweiliadau ac rydw i'n aros i glywed o'r prifysgolion. Teimlais fod y profiad yn fendithiol ar gyfer ysgrifennu fy natganiad personol ar fy ffurflen gais ac ar gyfer ateb cwestiynau yn ystod cyfweiliadau. Teimlaf fy mod yn gwybod beth yw'r swydd ac i ble rydw i'n anelu.,*

**Alun Evans**, Pentre'r Eglwys, myfyrwr lefel A yn Ysgol Gyfun Rhydfele/Gartholwg

### 3.3 Gweithgareddau perthynol

Mae profiad gwaith ochr yn ochr ag ystod o weithgareddau eraill lle gall sefydliadau iechyd fod mewn cysylltiad gyda gweithlu yfory. **Mae'r rhain yn cynnwys:**

**Mynychu ffeiriau gyrfaoedd** – anfon timau i gynrychioli sefydliadau iechyd mewn ffeiriau gyrfaoedd lleol a rhanbarthol mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.

**Carwsél gyrfaoedd** – mae hyn yn cynnwys enghreifftiau fel disgyblion chweched dosbarth yn treulio diwrnod yn ymweld â hyd at ddeg adran mewn ysbyty ar gyfer cyfres o weithdai rhyngweithiol. Mae'r math hwn o weithgaredd hefyd wedi'i gynnal mewn ysgolion gan wahodd ysgolion eraill i gymryd rhan. Gall myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol ymweld â stondinau i gael arddangosfa fer ac yna gweld gweithgaredd penodol sy'n codi allan o waith bob adran.

**Arddangosfeydd gyrfaoedd** – mynd ag ystod o stondinau i neuadd neu ysgol i arddangos gwaith y gwahanol adrannau o fewn y GIG a'r sector iechyd ehangach.

**Creu cyfleoedd gwirfoddoli** – mae gwirfoddoli'n cynnig cyfle gwych i bobl ifanc ennill profiad gwerthfawr a themlo eu bod yn gwneud rhywbeth gwerth chweil. Dylai cynlluniau gwirfoddoli annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn rolau priodol. Ni fydd yn rhaid i bob gwirfoddolwr gael gwiriad CRB ond pan fydd y swydd yn golygu cyswllt rheolaidd a sylweddol gyda phlant ac oedolion bregus wrth iddyn nhw gyflawni eu dyletswyddau arferol, bydd yn rhaid cael gwiriad CRB.

**Cyfweiliadau ffug** – mae'r rhain mewn tri categori: ar gyfer y rhai sy'n paratoi i fynd i mewn i brifysgol, rhaglenni cyn-cyflogaeth ac ymarfer cyfweiliadau ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliad addysgol yn cael eu trefnu gan Gyrfa Cymru. Gall cynnig y cyfleoedd hyn fod o fudd hefyd i Staff GIG sy'n dysgu sgiliau cyfweild.

**Cynllun Llysgennad GIG Cymru** – mae gan bob sefydliad GIG yng Nghymru gyswllt allweddol ar gyfer gweithgareddau gyrfaoedd. I'r rhai sy'n gweithio o fewn sefydliad GIG, mae gan y Llysgennad fynediad i ystod o adnoddau a syniadau. Mae'r Llysgennad yn aml wedi'i leoli o fewn yr Adran Adnoddau Dynol ond gall fod o fewn Adrannau Hyfforddi, Datblygu Gweithlu neu Leoliadau Clinigol.

**Lleoliadau arsylwi** – mae'r rhain yn cefnogi'r rhai sy'n ymgeisio am gyrsiau gofal iechyd mewn prifysgolion sy'n gorfod dangos dealltwriaeth glir o'u rôl yn y dyfodol. Yn aml, mae'r rhain wedi'u trefnu'n unigol ond maen nhw'n cael eu rheoli'n gynyddol fel rhaglenni wythnos neu bythefnos ar gyfer grwpiau.

**Diwrnodau agored** – mae'r rhain yn galluogi grwpiau o fyfyrwyr a/neu athrawon i ymweld ag adran arbennig neu'n ehangach. Gall y rhain gynnwys digwyddiadau recriwtio ar gyfer myfyrwyr gofal iechyd sy'n graddio.

[1] Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yng Nghymru (Ionawr 2008) Caerdydd, DU (ISBN 978 0 7504 4430 09) hefyd ar [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

**Ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth** – fel arfer gyda chefnogaeth Gyrfu Cymru, mae staff GIG, yn gweithredu fel cynrychiolwyr sefydliadau iechyd a'u proffesiwn/teulu swyddi, yn cynnig gwrs. Mae nhw'n egluro ac yn dangos yr hyn maen nhw'n ei wneud, gan orffen gyda gweithgareddau cysylltiol ar gyfer y myfyrwyr i atgyfnerthu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu. Gellir ymestyn hwn drwy fynd â thimau sy'n cynrychioli proffesiynau neu wasanaethau gwahanol i mewn at grŵp blwyddyn gyfan o ddsbarthiadau. Ynghyd â mynd â gweithwyr proffesiynol iechyd i ymweld ag ysgolion uwchradd, mae babanod mewn ysgolion cynradd yn mwynhau ysbty tedis sy'n dangos defnyddio rhwymynau ac amrywiol dechnegau niwsio eraill drwy ddefnyddio tedis neu wers am esgyrn ac organau.

**Cyswllt Ysgolion** – un nod tymor hir GIG Cymru y bod pob sefydliad GIG yn cynnig rhaglenni cyswllt ysgolion – ymrwymiad tymor hir pendant i greu perthnasoedd agosach gydag ysgolion lleol a cholegau addysg bellach gan ymweld â hwy a threfnu ymweliadau gan staff a myfyrwyr ysgolion/colegau. Byddai'r perthnasoedd hyn yn cefnogi llawer mwy o integreiddio GIG Cymru i mewn i'r cwricwlwm. Efallai y bydden ni'n gweld:

- Gwyddonwyr biofeddygol yn arddangos mewn gwrsi gwyddoniaeth
- Dietegwyr a staff arlwy'n ymwneud â thechnoleg bwyd
- Ffisiotherapyddion yn cynnig gwybodaeth am y mathau a'r lefelau o weithgareddau sydd eu hangen ar gyfer iechyd a lles
- Staff cyllid yn dangos perthnasedd mathemateg.

Ynghyd â chefnogi ymwybyddiaeth o fyd gwaith, mae hefyd yn cefnogi fframwaith ABCh y cwricwlwm.

**Cysgodi gwaith** – cyfle i fynd gydag aelod o'r staff wrth iddo/iddi gyflawni ei waith arferol bob dydd.

### 3.4 Ystyriaethau ymarferol

Mae'n debygol y bydd rhywfaint o amrywiaeth yn lefelau aeddfedrwedd a phrofiadau blaenorol ymhlith y bobl ifanc a dylid ystyried hyn wrth drefnu lleoliadau profiad gwaith.

Er nad yw cyswllt ymarferol gyda chlaf yn briodol, mae nifer o weithgareddau profiad gwaith y bydd myfyrwyr yn eu cael yn ddiddorol ac yn werthfawr. Rhaid asesu risg tasgau ymarferol a sicrhau eu bod yn briodol i'r myfyrwr unigol.

Mae'n ddefnyddiol amlygu pobl ifanc i amrywiaeth o rolau yn ystod eu profiad gwaith. Mae nhw'n gallu gwerthfawrogi ystod ehangach o agweddau gwahanol o ofal iechyd a gall y gwahanol staff rannu'r cyfrifoldeb dros y myfyrwyr yn ystod eu lleoliad.

Dylai myfyrwyr gael profiad o oriau arferol ond mae'n bwysig rhannu'r ystod o weithgareddau ar draws y diwrnod er mwyn parhau i symblu a dal i gynnal diddordeb y myfyrwyr.

Dylid cynghori disgyblion i wisgo'n addas i'r profiad gwaith sy'n cael ei gynnig.

Dylai aelod o'r staff fod gyda'r bobl ifanc bob amser ond nid yw hyn yn golygu mai'r un person fydd hyn bob amser.

Rhaid iddyn nhw wisgo bathodyn i ddynodi mai myfyrwr profiad gwaith ydyn nhw.

Mae'n bosibl y bydd rhai myfyrwyr yn gyfforddus i helpu gydag ystod o weithgareddau'n ymwneud â gofal cleifion, fel helpu gyda diodydd a phrydau bwyd ond dylid eu cyfeirio a'u goruchwyllo bob amser.

Mae profiad gwaith yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr ymgymryd â phrosiectau y mae'r staff yn methu â'u cyflawni oherwydd diffyg amser e.e. 'ymchwil', arolygon cleifion nad sy'n gyfrinachol a dadansoddi data.

#### Llais profiad 'Nid meddygon a niwsys yn unig – mae'n dibynnu ar systemau a thimau'

*Mae'r rhan fwyaf o bobl yn disgwyl y bydd y criw ambiwlans yn wynebu rhywbeth ar bob sifft. Oherwydd fy mhrofiadau eraill o fewn y Gwasanaethau Ambiwllans, roeddwn i'n disgwyl treulio mwy o amser mewn mannau lleoli mewn lleoliadau allweddol. Nid yr orsaf yw canolfan y criw bellach ond yr ambiwlans ei hun. Roeddwn i'n ddigon ffodus i gael profiad o ddiwrnod hynod brysur ac amrywiol. Yr hyn a ddysgais oedd ei fod yn waith sy'n rhoi llawer o bwysau ar y staff. Hefyd, os bydd y manylion a roddir i'r Ystafell Reol'n dda yn ystod galwad frys, bydd y gofal ynghynt ac yn well. Mae gwaith tîm yn hanfodol i gefnogi'r criw. Roedd llawer o waith paratoi a gwirio i'w wneud cyn i mi gael arsylwi ar y criw er mwyn diogelu'r cleifion a fi. Cyn bod unrhyw un yn cael mynd allan gyda chriw, maen nhw'n cael hyfforddiant arbenigol a rhaid cael cymeradwyaeth Ymgynghorydd Parafeddygol.*

Jon Hughes, Llanelwy

### 3.5 Deilliannau

Mae'n bwysig bod rhaglenni profiad gwaith wedi'u cynllunio a'u strwythuro i fod yn ddeniadol, yn addysgiadol ac yn werthfawr i'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan. Mae rhai sefydliadau GIG erbyn hyn – drwy weithio gydag ysgolion ac asiantaethau addysg – yn diffinio'r sgiliau a'r deilliannau dysgu sy'n gysylltiedig â'r gwahanol raglenni profiad gwaith. Gweler yr enghreifftiau isod.

Dylid gwerthuso'r rhaglenni, o safbwynt y myfyrwyr a'r staff maen nhw wedi bod yn gweithio gyda nhw. Bydd yr adborth yn ddefnyddiol i gyflogwyr wrth ddatblygu rhaglenni'r dyfodol ac i fyfyrwyr fel rhan o'u gwaith cwrs a'u datblygiad personol eu hunain.

### 3.6 Enghreifftiau o ddatblygu sgiliau drwy brofiad gwaith

**Dylai profiad gwaith effeithiol gyfrannu at ddatblygiad sgiliau, fel:**

- Sgiliau allweddol/swyddogaethol: mathemateg, Technoleg Gwybodaeth, cyfathrebu (ysgrifenedig a llafar), gwella eu dysgu eu hunain, cwblhau tasgau ar amser
- Sgiliau parodrwydd i waith: datrys problemau, gweithio gydag eraill, creadigrwydd, chwilio a chofnodi gwybodaeth, rhoi cyflwyniad, paratoi taenlen
- Sgiliau dysgu a meddwl personol: ymholi'n annibynnol, meddwl yn greadigol, gweithio fel rhan o dîm, dysgu adlewyrchol, ymateb i newid, cyfranogi'n effeithiol.



#### Llais profiad – dysgu am feddygaeth

*Fi yw'r person cyntaf o'n teulu ni i ystyried gyrfu mewn gofal iechyd. Rydw i ar fy mlwyddyn olaf lefel A ac yn gwneud cais am feddygaeth mewn prifysgol. Roedd yn rhaid i mi gael lleoliad i gefnogi fy nghais UCAS. Roedd Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yn barod i roi wythnos o arsylwi i mi. Oherwydd bod ysbtyai'n fannau mor brysur, nid oeddwn yn disgwyl gweld llawer. Roeddwn i'n meddwl y bydden nhw'n fy rhoi mewn cornel o'r golwg. Ond roedd pawb mor garedig: meddygon, cleifion, niwsys ac ysgrifenyddion. Roedd meddygon yn egluro'r hyn roedden nhw'n ei wneud a pham. Yn Ysbyty Brenhinol Gwent, cefais gyfle i arsylwi ar ofal yn y ward oncoleg, ward angiogram, derbyniadau gan gynnwys y Ganolfan Derbyn Cleifion a ward sy'n cynnig gofal i bobl hŷn yn Ysbyty St Woolos. Gwelais y broses i gyd o'r derbyn a'r diagnosis drwy'r driniaeth i'r rhyddhau. Roedd fy mhrofiad yn cadarnhau fy mod yn anelu yn y cyfeiriad cywir. Credaf iddo fy helpu yn y broses o ymgeisio. Mae wedi rhoi mwy i mi siarad amdano mewn cyfweiliadau gan fod gennyf lawer mwy o brofiad i dynnu arno wrth ateb cwestiynau.*

Thomas Williams, y Coed Duon, yn astudio yng Ngholeg Gwent, Campws Crosskeys





# PROFIAD GWAITH: SUT I WNEUD HYN

**Mae'r Adran hon yn cynnwys amrywiol enghreifftiau o raglenni profiad gwaith sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd gan y GIG a rhai sefydliadau annibynnol o gwmpas y wlad. Mae'n bosibl y bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng rhaglenni unigol ond mae'r mwyafrif yn rhannu'r elfennau allweddol canlynol:**

## 1. Cefnogaeth a brwdfrydedd staff ar bob lefel

Er mwyn i raglenni profiad gwaith ddatblygu a thyfu, rhaid iddyn nhw gael eu cadarnhau ar lefel bwrdd. Rhaid i uwch reolwyr gydnabod eu harwyddocâd fel ymrwymiad i'w gweithlu yn y dyfodol ac fel cyfrifoldeb corfforaethol i'r gymuned leol. Hefyd, rhaid i'r staff sy'n goruchwyllo myfyrwyr profiad gwaith fod yn frwdfrydig – mae rhai trefnwyr yn cynnal 'sioeau teithiol' ar gyfer prif weinyddesau nyrsio a rheolwyr adrannau eraill i greu diddordeb a mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliad.

## 2. Prosesau clir, syml y gellir eu hailadrodd

Mae materion pwysig o gyfrinachedd, asesu risg, iechyd a diogelwch, cyfrinachedd cleifion ac ymddygiad myfyrwyr y mae'n rhaid eu hystyried. Nid oes un o'r rhain yn anodd ac mae cymorth ar gael drwy Gyrfa Cymru wrth gynnig cyfleoedd profiad gwaith. Mae'r broses ymgeisio yn cynnig gweithdrefnau a thempledi (gweler templed 2). Ar ôl trefnu'r holl waith papur a'r gweithdrefnau, gellir eu defnyddio drosodd a thro ar gyfer lleoliadau eraill.

## 3. Cyswllt gydag ysgolion lleol a Gyrfa Cymru

Mae nifer o sefydliadau GIG yn edrych i gynnwys athrawon a Gyrfa Cymru wrth gynllunio rhaglenni profiad gwaith. Fel rhan o raglen gyswllt ag ysgolion ehangach mae'n rhoi gwell dealltwriaeth i athrawon o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n wynebu'r sector wrth alluogi profiad gwaith mewn gofal iechyd.

## 4. Cytuno ar y tasgau a'r adrannau y gellid eu cynnwys

Fel offeryn gwneud penderfyniadau, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol cael polisi cytûn ar y tasgau clinigol y gallai pobl ifanc ymgymryd â hwy neu eu harsylwi ac unrhyw adran lle ystyrir y byddai eu presenoldeb yn anaddas. Gweler templed 9 am restr wirio o samplau. Mae rhai adrannau'n anaddas ar gyfer lleoliadau myfyrwyr oherwydd sensitifrwydd y tasgau a'r amgylchedd. Cyfrifoldeb y sefydliad yw ystyried yr hyn sy'n addas er bod y rhestr wirio o samplau'n cynnig sylfaen.

## 5. Symbylu rhaglenni ar gyfer gwahanol grwpiau o fyfyrwyr

Dylai rhaglenni gael eu llunio i fod yn ddiddorol ac yn ddeniadol. Bydd amlygiad byr i amrywiaeth o rolau a lleoliadau yn aml yn fwy gwerthfawr na mynd i wneud yr un peth bob dydd. Mae'n rhaid i'r disgybl a'r cyflogwr fod â dealltwriaeth glir o'r deiliant ac addasrwydd y lleoliad. Mae hefyd yn well i'r staff sy'n cymryd rhan oherwydd eu bod yn rhannu'r cyfrifoldeb. Bydd myfyrwyr ôl 16 yn meddwl o ddifrif am eu dewis o yrfa ac mae'n bosibl y byddan nhw'n awyddus i gael profiad mwy trylwyr o rôl arbennig.

## 6. Ymsefydlu, deilliannau a gwerthuso

Mae profiad gwaith erbyn hyn yn rhan annatod o gwricwlwm pob disgybl. Bydd yr ysgol neu Gyrfa Cymru, fel yr asiantaeth sy'n trefnu, efallai'n dymuno cytuno ar ddeilliannau dysgu o bob rhaglen o safbwynt datblygiad sgiliau a gwybodaeth. Gallwch gynorthwyo wrth lunio'r rhain. Ar ddiwedd pob rhaglen, dylai myfyrwyr a staff adolygu'r lleoliad. Mae enghraifft o'r ffurflen werthuso wedi'i chynnwys yn nhempled 12. Nid oes yn rhaid i'r rhain gymryd llawer o amser a gallan nhw roi adborth defnyddiol ar y rhaglen a'r myfyrwyr. Mae'n bosibl y bydd sefydliadau iechyd eisiau ystyried rhoi tystysgrif. Mae'n bosibl y bydd rhai'n cadw mewn cysylltiad gyda myfyrwyr wrth i'w cynlluniau gyrfa ddod yn fwy eglur.

## 7. Rhoi cyhoeddusrwydd i gyraeddiadau

Er na ddylid bod unrhyw brinder ymgeiswyr am bob cyfle profiad gwaith, mae'n werthfawr rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau'r cynllun. O fewn y sefydliad, bydd hyn yn codi proffil y rhaglen ac yn denu diddordeb a chefnogaeth staff eraill. Yn allanol, bydd yn gwella proffil y sefydliad iechyd ac yn cynyddu cefnogaeth i'r polisi ar lefel bwrdd. Mae'n bosibl y byddwch chi am ystyried cyfryngau fel cyfathrebu mewnol, ysgol/coleg a Gyrfa Cymru ynghyd â thafenni am ddim yn lleol, cylchgronau proffesiynol a Gwobrau GIG a chyfryngau cenedlaethol. Cofiwch fod yn rhaid cael caniatâd y myfyrwyr a/neu rieni/gofalwyr ar gyfer lluniau ac erthyglau.

### Llais profiad – rhaglen arsylwi

*Rydw i ar fy mlwyddyn olaf yn yr ysgol ac wedi gwneud cais am feddygaeth. Bum mewn dau Weithdy Ymarferol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf i ymarfer sgiliau clinigol ac am wythnos ar gyfer lleoliadau arsylwi. Roeddwn i'n meddwl bod yr ail weithdy hyd yn oed yn fwy defnyddiol na'r un cyntaf oherwydd ynghyd â'r ymarfer, roeddwn i'n gallu siarad â'r myfyrwyr meddygaeth oedd yn arddangos am sut le oedd yn yr ysgol feddygol. Roedd y rhaglen arsylwi'n mynd â fi i bob adran o'r ysbyty. Ar y diwrnod cyntaf, roeddwn i yn y theatr yn arsylwi ar lawdriniaeth gyda'r llawfeddyg yn rhoi sylwadau ar yr hyn roedd yn ei wneud a pham. Nid oeddwn yn meddwl y byddwn byth yn cael cyfle o'r fath. Roedden ni'n gweld gwahanol glinigau a wardiau gan gynnwys y Clinigau Diabetes ac Arthritis a'r Ward Cardiolfasgwlar. Roedd y rhaglen yn hynod lawn. Erbyn diwedd yr wythnos, roeddem wedi bod ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd yr holl amgylcheddau gwahanol yn golygu ein bod yn dysgu rhywbeth newydd o hyd. Roedd yn hynod ddiddorol. Rydw i'n bwriadu cymryd blwyddyn yn rhydd ac yn gobeithio mynd i weithio neu wirfoddoli o fewn y GIG am ran o'r flwyddyn.*

**Callum Priest, Trallwn, Pontypridd**, myfyriwr lefel A yn Ysgol Uwchradd Hawthorn



### Sampl o raglenni

Darparu profiad gwaith tra'n cymryd y pwysedd oddi ar Adnoddau Dynol

*Roedden ni'n penderfynu cymryd y cyfle i adolygu ein polisi profiad gwaith ar ôl i'n dwy ymddiriedolaeth GIG uno gan ei fod yn caniatáu i ni alinio ein bwriadau a sicrhau bod pawb yn dilyn arfer da.*

*Gyda'n gilydd, roeddem wedi cynnig lleoliadau i 32 ysgol a choleg yn yr ardal ar gyfer myfyrwyr dros 14 oed. Roedd y gefnogaeth gan y Cyfarwyddiaethau bob amser wedi bod yn gadarnhaol gyda nifer o leoliadau llwyddiannus. Roeddem wedi nodi bod cydlynu lleoliadau profiad gwaith yn pwysu'n drwm ar y staff yn yr Adran Adnoddau Dynol. Roedd newidiadau mewn rheolaeth strwythurol wedi golygu bod y gwaith oedd yn ymwneud â hyn yn anghynaliadwy. Hefyd, teimlwyd nad oedd y broses yn ddigon 'sydyn' a bod angen datblygu proses fwy syml.*

*Mae'r peilot rydyn ni'n ei brofi ar hyn o bryd, yn dilyn y camau canlynol:*

- Adrannau'n gwirfoddoli'n flynyddol.
- Gyrfa Cymru'n asesu risg a iechyd a Diogelwch.
- Mae trefnu lle'n digwydd drwy Gyrfa Cymru/ysgolion gyda'r myfyriwr yn gwneud cais yn uniongyrchol i'r Adran.
- Cyfweiliad rhagarweiniol y myfyrwyr yn cynnwys trafod rôl a thasgau.
- Adrannau'n cwblhau'r asesiadau risg a gorsafoedd gwaith.
- Cynhelir adolygiad iechyd Galwedigaethol ac, os bydd angen, Asesiad Anabledd.
- Copi o'r lleoliad i fynd i'r Adran Adnoddau Dynol ar gyfer cadw cofnod.
- Mentor enwebedig yn goruchwyllo drwy gydol y lleoliad.
- Anogir hunan-werthuso drwy gadw dyddiadur, log adlewyrchol ac adolygiad ffurfiol.
- Mentor yn gwerthuso.
- Copiau o'r gwerthuso i fynd i'r Adran Adnoddau Dynol a'r partneriaid.

### Mae manteision y cynllun newydd, sydd wedi'u nodi hyd yn hyn, yn cynnwys y cyfle i atgoffa rheolwyr bod:

- lleoliadau profiad gwaith yn chwarae rhan bwysig wrth geisio denu cyflogai i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol;
- myfyrwyr yn gallu dysgu sut deimlad fyddai gweithio o fewn y GIG yn y rôl maen nhw wedi'i dewis.

*Mae'r canllawiau newydd yn sicrhau cysondeb wrth ddelio â galwadau profiad gwaith. Mae mwy o bwyslais ar yr hyn mae myfyrwyr wedi'i ddysgu yn ystod eu lleoliadau gwaith. Er enghraifft, mae tystiolaeth o'u profiad yn eu dyddiadur dyddiol, eu log adlewyrchol a'r gwaith a gwblhawyd. Mae'r mentoriaid enwebedig yn cofnodi eu bod wedi arsylwi ar gwblhau rai tasgau ynghyd â chwblhau adroddiad goruchwylwr. Felly, mae llawer mwy o ffocws ar ddeilliannau dysgu. Mae hyn wedi bod o fudd i ddatblygiad y myfyrwyr a'r staff sy'n goruchwyllo. Mae pawb sy'n cymryd rhan yn ennill o'r profiad gyda'r cyfraniad lleiaf gan yr Adran Adnoddau Dynol.*

**Angela Salkeld/Helen Carroll**,  
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru

# ARFER DA WRTH REOLI RHAGLENNI PROFIAD GWAITH

**Mae trefnu profiad gwaith yn cynnwys staff ar bob lefel o fewn sefydliad iechyd GIG, annibynnol neu trydydd sector. O fewn y GIG, mae hyn yn cynnwys aelodau'r bwrdd ac uwch reolwyr sy'n ymrwmo i'w waith strategol, rheolwyr canol y mae'r rhaglenni'n cael eu rhedeg o fewn eu hadrannau a'r staff y bydd y myfyrwyr yn cydweithio gyda nhw.**

Er mwyn sicrhau bod profiad gwaith yn llwyddo, mae'n rhaid i sefydliadau iechyd fod â threfniadau rheolaeth cadarn wedi'u cytuno ar lefel bwrdd gan gynnwys polisi profiad gwaith, trefniadau asesu risg (gweler templed 4) a pherson enwebedig o'r bwrdd gweithredol neu o blith y cyfarwyddwyr sy'n hollol ymatebol am raglenni profiad gwaith ar draws y sefydliad. Dylai pob sefydliad fod â'i bolisi ei hun sydd wedi'i gytuno gan yr adran weithredol.

Fodd bynnag, nid yw rhaglenni profiad gwaith yn rhedeg ar eu pen eu hunain. I raddau amrywiol, byddan nhw'n golygu cyswllt rheolaidd gydag ysgolion/gyda cholegau a Gyrfa Cymru, ymgynghori gyda rheolwyr a staff ar ddatblygiad rhaglenni diddorol a chyraeddadwy, asesu risg, gweinyddu dewis a pharatoi myfyrwyr ar gyfer lleoliadau a'r dilyniant o safbwynt gwerthuso'r rhaglenni a'r myfyrwyr.

O ganlyniad, bydd sefydliadau iechyd sydd wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd profiad gwaith, yn aml ag un neu fwy o bobl sy'n gyfrifol am gynllunio a chydlynu'r gweithgareddau. Mewn rhai achosion, gall hon fod yn rôl llawn amser. Mewn eraill, mae cydlynu profiad gwaith yn cael ei rannu gyda chyfrifoldebau eraill.

**Dyma fodelau gwahanol o sut gall profiad gwaith gael ei gynnwys o fewn gweithrediadau sefydliad GIG:**

## **Ar lefel Cymru gyfan**

O fewn y GIG, mae rhwydwaith Llysgennad GIG Cymru sy'n cyfarfod gyda'r partneriaid tair gwaith y flwyddyn i rannu arfer da ac i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth. Hefyd, mae NLIAH yn cefnogi'r gweithgareddau hyn drwy Adran o fewn gwefan Gyrfa Cymru GIG yn [www.nhswalescareers.com](http://www.nhswalescareers.com)

## **Ar lefel sefydliad GIG lleol i drefnu profiad gwaith**

Y model nodweddiadol ar gyfer sefydliadau GIG gyda rhaglenni profiad gwaith ffyniannus yw aelod o staff neu dîm yn cymryd cyfrifoldeb ar draws y sefydliad. Gall hyn ddigwydd o fewn yr Adran Adnoddau Dynol, hyfforddiant a datblygiad neu o fewn lleoliad israddedigion. Mae cynlluniau llwyddiannus yn cael eu rhedeg yng Nghymru o bob un o'r adrannau hyn, er bod y mwyafrif yn dal i fod ar hyn o bryd gydag Adnoddau Dynol. Mae disgrifiad o arfer o fewn sefydliadau GIG isod. Mae'r agweddau hyn yn helpu i sicrhau cysondeb, cydymffurfiant gyda gofynion statudol a gwell cyfle cyfartal i fyfyrwyr.

**ADRAN 5**

## Ar lefel adran

Ar ôl i sefydliad GIG sefydlu amlinelliad o'r broses, mae llawer o'r trefniadau'n cael eu datganoli i lefel adran. Mae'r adrannau'n dilyn y canllawiau a gyhoeddwyd ac mae'r Adran Adnoddau Dynol yn cofnodi'r nifer sy'n ymwneud â'r broses ar ôl sicrhau bod yr holl werthuso risgiau angenrheidiol wedi'i gwblhau.

## Y gefnogaeth sydd ar gael

Yr un gost sylweddol sy'n gysylltiedig â darparu profiad gwaith yw amser staff a bydd hyn yn amrywio yn ôl y model fydd yn cael ei fabwysiadu. Bydd yn rhaid i arian tymor hir ddod o ymrwymiad ar lefel Bwrdd i werth y

profiad gwaith o safbwynt cynllunio gweithlu'r dyfodol a'r cyfraniad i'r gymuned leol ehangach. O osod union gost trefnu rhaglenni profiad gwaith yn erbyn y buddiannau gwerthfawr hyn, ymylol iawn yw hyn.

Mae Gyrfa Cymru'n datblygu cronfa ddata o'r holl leoliadau profiad gwaith sydd wedi'u cymeradwyo ar draws Cymru. Drwy weithio drwy'r system hon, bydd y staff sy'n ymwneud â darparu profiad gwaith yn gallu cael cyngor a chefnogaeth ar faterion fel cydlynu lleoliadau, iechyd a diogelwch a chyswllt gydag ysgolion a cholegau lleol.

## Engheifftiau o sut gall profiad gwaith gael ei gydlynu'n effeithiol

### Nyrsio: Diwrnodau Profiad Gwaith a Dosbarthiadau Meistr

Mae ein Diwrnodau Profiad Gwaith Nyrsio wedi'u hanelu at bobl ifanc 14-17 oed a chynigiwyd hwy yn lle lleoliadau ar wardiau a oedd yn gynyddol anodd eu trefnu. Mae'r rhai a fynychir wedi'u dewis gan Gyrfa Gorllewin Cymru ac wedi mynegi diddordeb mewn nyrsio fel gyrfa. I ddechrau, roedd gwahanol fathau o nyrsys yn rhoi sgwrs ar eu harbenigeddau. Fodd bynnag, teimlem nad cael sgwrsiau drwy'r dydd fyddai darpar ymgeiswyr nyrsio ei eisiau felly trefnwyd rhai sesiynau rhyngweithiol. Yn awr, mae'r diwrnod yn dechrau gyda chyflwyniad 15 munud gan bob un o'r canlynol a sesiwn holi ac ateb:

- nyrs newydd gymhwyso sydd wedi dod at nyrsio drwy'r dull "traddodiadol" sef ysgol, prifysgol, gwaith ac ymarferol;
- ymgeisydd hyn sydd efallai wedi magu ei theulu a/neu wedi dilyn proffesiwn y tu allan i iechyd cyn hyfforddi, i ddangos nad un ffordd yn unig sydd i mewn i'r proffesiwn;
- bydwraig;
- nyrs yn yr adran damweiniau ac argyfwng;
- nyrs sy'n gweithio mewn adran cleifion allanol;
- nyrs theatr; a
- nyrs ward.

Yna, mae'r Adran Dysgu a Datblygu'n crynhoi'r bore a'r sgwrsiau ac yn trafod y proffesiynau clinigol eraill y mae nyrsys yn cydweithio â nhw fel therapyddion, dietegwyr a gwyddonwyr. Yn y prynhawn, rydym yn gosod gorsafoedd sgiliau i ddysgu grwpiau bach mewn CPR, cymryd pyls, cymorth cyntaf a gosod rhwymynnau ac asesiad APVU sydyn o statws meddwl. Yna, byddwn yn trefnu senarios ac wedi ail gymysgu'r grwpiau, yn trafod delio â "chlafr"

sydd wedi cael ei drydanu/thrydanu gan haearn smwddio; sydd wedi cael briw mawr ar fraich; sydd wedi meddwi neu sy'n hen wraig wedi'i drysu'n llwyr oherwydd iddi syrthio'n ddiweddar. Mae'n rhaid i'r grwpiau "drin" bob claf gan ddefnyddio'r sgiliau maen nhw wedi'u dysgu wrth y gorsafoedd sgiliau. Rydym yn newid y grwpiau drwy'r dydd er mwyn iddyn nhw arfer gweithio gyda phobl nad ydyn nhw'n eu hadnabod. Rydym yn gorffen y diwrnod gyda'r sesiwn holi ac ateb olaf, gan eu cynghori ar sut i ymgeisio a'u gwerthusiad o'r profiad.

Anelir ein Dosbarth Meistr at y myfyrwyr hynny sy'n dilyn cyrsiau cymwysterau galwedigaethol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn barod. Rydym yn sicrhau ei fod yn cyfateb i'r cwricwlwm yn fanwl ac fel arfer, mae myfyrwyr yn dod â'u llyfrau gwaith gyda nhw. Rydym yn gosod gorsafoedd ar gyfer gwahanol broffesiynau. Bydd enghraifft nodweddiadol yn cynnwys: nyrsys ardal, nyrsys iechyd rhyw, nyrsys deintyddol, bydwragedd, nyrsys iechyd ysgolion, nyrsys iechyd galwedigaethol, therapyddion iaith a lleferydd a dietegwyr. Mae'r ymarferwyr yn gosod arddangosiadau rhyngweithiol y maen nhw'n eu defnyddio i arddangos gwahanol agweddau o'u rolau, y gefnogaeth a gaiff myfyrwyr sy'n cael profiadau o'r agweddau hynny ac yn ateb unrhyw gwestiynau. Mae grwpiau bach o fyfyrwyr yn symud o gwmpas y gorsafoedd gan dreulio 30 munud ym mhob un hyd nes iddyn nhw gael profiad o bob un. Daw'r diwrnod i ben gyda sesiwn holi ac ateb cyffredinol a gwerthusiad.

Gwelsom fod craffu'n fanwl ar y ffurflenni gwerthuso wedi rhoi syniadau ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Un o'r dulliau y gallwn fesur llwyddiant y digwyddiadau yw'r nifer o fyfyrwyr sy'n gwneud cais am ein banc gweithwyr cefnogi gofal iechyd pan fyddan nhw'n 16 oed.

**Catherine Rees**, Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda.

## Llais profiad


– dysgu am nyrsio

*Rydw i newydd gwblhau wythnos o brofiad gwaith yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre sy'n arbenigo mewn gofal cancer. Rydw i ym Mlwyddyn 10 (14 oed) ac am fod yn nyrs, ond nid wyf yn sicr pa fath o nyrs. Gwn fy mod am nyrsio oedolion ond nid wyf yn sicr at ba arbenigedd yr hoffwn anelu.*

*Oherwydd fy oed, nid oedd yn bosibl fy rhoi ar y wardiau. Felly, bum yn yr adran weinyddol lle'r oeddwn yn gwneud gwaith cyfrifiadu ac yn helpu'r person sy'n darparu'r cyrsiau ymsefydlu. Roeddwn yn cael awr gyda gwahanol weithwyr proffesiynol oedd yn fy nysgu am eu rolau ac yn dangos i mi lle'r oedden nhw'n gweithio. Aeth nyrs drwy'r holl opsiynau triniaeth ar gyfer cleifion a'r opsiynau gyrfaoedd i nyrsys yn yr ysbyty hwnnw. Aeth radiograffydd â mi i weld y prif ystafelloedd therapi gan egluro beth oedd y peiriannau a sut roedden nhw'n gweithio.*

*Fy ffeffryn oedd y fflebotomydd oherwydd roeddwn yn gallu aros pan oedd yn cymryd gwaed oddi wrth gleifion. Ar ôl fy mhrofiad, roeddwn yn dal yn sicr fy mod am fod yn nyrs ond nid mewn gofal cancer. Felly, roedd y profiad yn rhoi cyfle i mi weld y math o nyrsio yr hoffwn anelu ato a'r hyn nad wyf am ei wneud.*

**Gemma Stockdale**, Caerdydd, yn astudio yn Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf





## ADRAN 6

# AMLINELLIAD O'R BROSES

**Rhaid i unrhyw berson ifanc sy'n dilyn rhaglen profiad gwaith arwyddo cymal cyfrinachedd cyn dechrau. Os bydd o dan 18 oed, rhaid i riant neu warchodwr arwyddo'r cytundeb hefyd.**

Mae'r cymal cyfrinachedd yn ddogfen syml sy'n rhoi sylfaen cywir i'r rhaglen a bydd yn bodloni gofynion a osodwyd gan yswirwyr yr atebolwydd cyhoeddus (gweler templed 7).

Ni fydd angen hyn fel arfer ar gyfer achlysur 'profi' diwrnod neu hanner diwrnod.

### Y broses ymgeisio

Mae'r Adran hon yn amlygu arfer da yn y broses ymgeisio ar gyfer trefnu lleoliadau profiad gwaith. Ystyrir eitemau ag asterisg \* fel rhai gorfodol. Gellir cael hyd i dempledi ar gyfer y gwaith papur ar ddiwedd y pecyn hwn.

#### 1. Ymholiad oddi wrth ysgol, coleg neu ymgeisydd unigol

##### Anfonwch:

- Lythyr ymateb
- Ffurflen gais
- Grynodedeb o reoliadau ac amodau
- Amlinelliad o amcanion

#### 2. Derbyniwyd y ffurflen gais

##### Gwiriwch:

- Ydy'r cais yn dderbyniol?
- Ydy'r profiad y gofynnir amdano'n addas i'r ymgeisydd?
- A oes cyfle addas ar gyfer profiad gwaith ar gael?
- Asesiadau risg ar gyfer yr adran(nau) berthnasol/perthnasol\*

#### 3. Gwahoddiad i gyfweiliad, holiadur iechyd\*

Nid yw pob rhaglen yn mynnu cyfweiliad. Bydd rhai'n llenwi lle ar sail 'y cyntaf i'r felin' os bydd y cais yn addas. Dilynwch y weithdrefn recriwtio.

#### 4. Cyfweiliad

a' i gwneud ya glir na ellir trenfnu lleoliadau y tu allan i'r system

- Ffurflen gyfweiliad wedi'i chwblhau
- Cyfweiliad ffôn cyn cyswllt opsiynol
- Rheolwr yn gwirio'r holiadur iechyd\*
- Trafod yr amcanion
- Derbyniwyd/gwrthodwyd'

#### 5. Llythyr cadarnhad

##### Anfonwch:

- 2 gytundeb profiad gwaith
- Gyngor asesiad risg a iechyd a diogelwch
- Gyfarwyddiadau ar wisg briodol i'r sefydliad, ymddygiad, cyfrinachedd cleifion
- Ffurflen werthuso
- Daflen wybodaeth ar gyfer lleoliad
- Wiriad CRB os bydd yn briodol\*

#### 6. Y rhaglen profiad gwaith

Mae rhaglenni profiad gwaith yn amrywio o sesiwn profi am ychydig oriau i leoliad gwirfoddol estynedig. Fodd bynnag, dylai pob un o'r elfennau hyn fod yn weithredol neu rai ohonyn nhw.

- Ymweliad cyn-lleoliad i drefnu unrhyw ddillad amddiffynnol a bathodyn llun ID (mynnwch flaendal)
- Rhaglen ymsefydlu
- Cyfweiliad cyn gadael
- Gwerthusiad y myfyriwr o'r rhaglen
- Adroddiad y goruchwyliwr
- Dychwelyd y bathodyn ID a'r wisg ffurfiol (dychwelyd y blaendal)

#### 7. Dilyniant

Mae adroddiadau gwerthuso myfyrrwyr a staff yn ffurfio rhan bwysig o ddiwedd y rhaglen profiad gwaith. Ar ôl hyn, bydd yn ddefnyddiol i'r myfyrrwyr a'r cyflogwyr gynnal dilyniant o'r profiad gwaith ychydig wythnosau'n ddiweddarach. Mae e-bost yn cynnig llwybr effeithiol ar gyfer y dilyniant hwn.

Adolygwch y rhaglen yn rheolaidd a defnyddiwch ffurflenni gwerthuso'r myfyrrwyr fel rhan o hyn. Cofiwch, hyd yn oed pan fydd amser yn brin, peidiwch â thorri corneli – mae'n bwysig dilyn y gweithdrefnau cywir.



## Llais profiad

– Ochr yn ochr â dysgu a datblygu

Yr her i ddarparwyr GIG a gofal cymdeithasol ym Mhowys yw recriwtio ac yna cynnig cyfleoedd gyrfa a datblygiad i boblogaeth wledig. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys yn anelu at gipio calon a meddwl y rhai sy'n ystyried gyrfa mewn iechyd drwy gynyddu ei ystod o leoliadau ac felly amlygu'r ystod eang o yrfaedd o fewn GIG. Hefyd, rydym yn paratoi ar gyfer oedolion sy'n ystyried newid gyrfa naill ai o fewn ein staff ein hunain neu'r rhai sy'n dychwelyd i waith ar ôl diwethdra, salwch neu anabledd tymor hir. Mae cyflenwi ein cynllun yn dibynnu ar staff clinigol ac anghlinigol yn gweithio ochr yn ochr â sefydliadau addysgol, y gwasanaeth gyrfaoedd, canolfannau gwaith, y sector gwirfoddol a sefydliadau cefnogi gwaith eraill.

Mae cynllun sy'n cael ei reoli'n ganolog wedi disodli'r lleoliadau amrywiol yn ôl y galw. Datblygwyd polisiau a gweithdrefnau priodol. Roedd yr arweiniad i reolwyr ac athrawon yn cynnwys proses ymsefydlu glir; iechyd a diogelwch ac asesu risg; ac enwebu goruchwyliwr enwebedig i fod yn gyfrifol am asesu a gwerthuso pob lleoliad. Crewyd cysylltiadau gyda chyfleoedd lleoliad. Roeddem am gael ymagwedd hyblyg oedd yn cynnig sesiynau profiad gwaith undydd neu ddeuddydd; bloc pythefnos neu hyd at chwe wythnos. Datblygwyd cronfa ddata ar gyfer adrodd yn ôl i'r budd-ddeiliaid.

### Mae trefnu lleoliadau'n unigol yn sicrhau eu bod yn cyflawni anghenion pob unigolyn. Mae ein llwyddiannau'n cynnwys:

- oedolyn oedd yn chwilio am waith ond yn penderfynu peidio â gweithio mewn swyddfa; a
- myfyriwr profiad gwaith oedd yn y pen draw'n dychwelyd atom fel Therapydd Galwedigaethol cymwys.

Erbyn hyn, mae gennym gynllun profiad gwaith cydlynol gyda threfn i sicrhau data meintiol ac ansoddol. Mae'n rhoi cefnogaeth ac anogaeth i ddarpar gyflogai'r GIG. Mae cydnabyddiaeth i'r amser a'r ymdrech a roddwyd gan staff sy'n mwynhau cynllun sy'n eu cefnogi'n adlewyrchu ar eu rolau.

**Janet Morgan**, Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys.

Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys – Myfyriwr yn dyfynnu o ffurflenni gwerthuso a gwblhawyd ar ôl profiad gwaith

- Roedd y lleoliad hwn yn rhoi cipolwg da i mi i waith ffisiotherapydd mewn ysbyty. Cefais amser pleserus yn siarad â'r cleifion yn arbennig y cleifion yn y wardiau. Gobeithio y caf gyfle i ddod eto!
- Roedd hwn yn brofiad gwych ac addysgiadol iawn. Roedd y staff mor groesawus a charedig. Rydw i'n fwy sicr eto mai o fewn meddygaeth y mae fy nyfodol. Diolch!
- Roedd y staff yn hynod o gyfeillgar ac roedden nhw bob amser yn fy nghynnwys yn y tîm. Roedd yn hynod ddiddorol siarad â'r cleifion. Dysgais lawer hefyd am nyrsio sylfaenol sy'n ddefnyddiol o safbwynt fy hyfforddiant yn y dyfodol. Yn gyffredinol, rydw i wedi penderfynu ar nyrsio fel fy ngyrfa yn y dyfodol.
- Mwynheais fy hun yn fawr iawn yn ystod fy lleoliad o bythefnos a theimlais ei fod wedi bod yn brofiad gwaith buddiol. Roedd y staff yn hynod garedig, pleserus ac yn fy nghynnwys yn eu gwaith. Hefyd, cefais gyfle i siarad a dysgu oddi wrth y cleifion am eu profiad a'u barn am yr ysbyty.
- Roedd yn gipolwg gwych i ddiwedd o fewn GIG ac roedd pawb yn garedig iawn.
- Roedd y staff yn hynod gefnogol ac amyneddgar. Roedd y cleifion yn hyfryd ac yn dangos cryn ddiddordeb yn fy lleoliad. Gwelais amrywiaeth o wahanol bethau a mwynheais fy amser yn fawr iawn.

## Y Broses Leoli

Derbyn cais i leoli myfyriwr yn breifat



Gwirio gyda'r adran berthnasol ei fod yn gallu cymryd y myfyriwr ar y dyddiadau y gofynnwyd amdany'n nhw



Gofyn i'r adran am asesiad risg o'r lleoliad



Cwblhau a dychwelyd y dogfennau i'r ysgol neu'r coleg gyda'r Yswiriant, Atebolwydd Cyhoeddus/Cyflogwyr a'r asesiad Risg



Trefnu cyfweiliad gyda'r myfyriwr os bydd angen



Sicrhau bod Rhaglen Ymsefydlu ar gyfer y myfyriwr



Sicrhau bod gan y myfyriwr oruchwyliwr neu fentor i egluro'r rhaglen ac i fod yn brif gyswllt



Rhaid i'r goruchwyliwr gwblhau'r adroddiad gwerthuso ar y myfyriwr

## Gwobr – Cynllun oedd yn ennill gwobr yng Nghaerdydd a'r Fro

Gall profiad gwaith fod o fudd i'r unigolyn a'r sefydliad. Mae myfyriwr yn datblygu gwell dealltwriaeth o sut mae gofal iechyd yn gweithio a'r rolau gwahanol a chyfnewidiol niiferus wrth ddarparu gwasanaeth iechyd modern. Ar yr un pryd, mae darparu lleoliadau strwythuredig ac addysgiadol yn rhoi cyfle i ddenu pobl ifanc i mewn i'r gweithlu yn y dyfodol.

Ym mis Gorffennaf 2008 roedd Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd a'r Fro'n lansio proses electronig ddiwygiedig ar gyfer profiad gwaith. Y nod oedd safoni amddiffynfeydd a chynnig ystod estynedig o leoliadau clinigol ac anghlinigol ar draws ysbtyai ac unedau yn y gymuned.

Mae'r mwyafrif o'r rhain ar gyfer myfyriwr 15-19 oed yn cael eu hyrwyddo gan Gyrfa Cymru drwy gronfa ddata lleoliadau. Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru'n ymweld ag adrannau i gytuno ar raglenni a helpu rheolwyr i gynnal asesiadau risg. Mae nifer o leoliadau ar gael i oedolion hefyd e.e. graddedigion newydd neu'r rhai sy'n ystyried newid gyrfa.

Mae canllawiau i reolwyr newydd yn cynnig llwybr clir i greu lleoliadau a threfnu myfyriwr a'i gwneud 'a'i gwneud yn glir na ellir trefnu lleoliadau y tu allan i'r system.

- Rhaid asesu risgiau pob lleoliad a chytuno ar raglen waith/arsylwi.
- Rhaid cynnal gwiriad iechyd Galwedigaethol cyn cwblhau'r lleoliad.
- Ymsefydliad adrannol ar ddiwrnod cyntaf lleoliad drwy ddefnyddio rhestr wirio y cytunwyd arni.
- Yr holl fyfyrwyr i arwyddo Datganiad Cyfrinachedd
- Myfyriwr ysgolion yn derbyn Tystysgrif ar gyfer eu ffolder Cofnod Cyrhaeddiad

Cydlynwyr Profiad Gwaith o'r Adran Adnoddau Dynol i ddarparu'r gefnogaeth weinyddol ac felly lleihau gwaith y rheolwyr. Ers cyflwyno'r cynllun newydd, mae dros 120 o bobl wedi cwblhau lleoliad profiad gwaith.

Mae'r Rhaglen Arsylwi ar Waith Meddygol, ar gyfer disgyblion ysgol sy'n ystyried gyrfa feddygol, yn cael ei rhedeg ar wahan o dan nawdd y Ganolfan i Sraddedigion.

**Sue Barrow**, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro



# ADRAN 7

## PROFIAD GWAITH I OEDOLION

**Mae'r Adran hon yn delio â'r oedolion hynny sydd efallai am weithio yn y sector iechyd ond sydd heb gael y profiad perthnasol neu heb fynychu cwrs astudiaeth sy'n cynnig profiad gwaith fel rhan o'r cwrs.**

Bydd angen gwiriad CRB ar unrhyw gyflogaeth neu waith sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd lle mae'r deilydd swydd yn dod i gysylltiad â phlant ac oedolion bregus wrth gyflawni ei ddyletswyddau/dyletswyddau arferol.

Nid yw bob amser yn hawdd cael hyd i brofiad gwaith i oedolion am amryw resymau ond mae sawl modd i gael y profiad hwnnw. **Mae'r rhain yn cynnwys:**

**Gweithio gwirfoddol** – gall ystod o brofiadau gwirfoddoli helpu ceisiadau am waith. Mae nifer o elusennau, mudiadau gwirfoddol a sefydliadau GiG sy'n gallu rhoi cyfle i ymgeiswyr adeiladu eu sgiliau, datblygu hyder a phrofiad priodol. Os dilynir y cwrs hwn, mae'n bwysig pwysleisio'r sgiliau hynny ar unrhyw gais yn y dyfodol.

**Gweithio ar y Banc** – mae'n bosibl y bydd cyfran o weithwyr cefnogi gofal iechyd ar gael. Gall hyn fod yn ddull effeithiol o gael profiad cyn gwneud cais am swydd hyfforddai.

**Cysgodi gwaith** yw'r cyfle i fynd gydag aelod o'r staff wrth iddyn nhw gyflawni eu gweithgareddau arferol. Mae'n bosibl y bydd hyn yn opsiwn cyfyngedig gan adlewyrchu natur brysur y sector.

Mae ystod o gyfleoedd ar gael i'r rhai sy'n ddi-waith drwy'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cynnig cefnogaeth i gyflogwyr a cheiswyr swyddi.

**Mae eu gwasanaethau 'n cynnwys:**

### Partneriaethau Cyflogwyr

Mae cyflogwyr a'r Ganolfan Byd Gwaith yn cytuno i gydweithio i helpu cyflogwyr i recriwtio pobl ddi-waith dan anfantais. Mae cyflogwyr gyda swyddi gwag yn galluogi'r grŵp hwn o bobl i gael swyddi – drwy eu prosesau recriwtio, cyfweiliadau, lleoliadau gwaith, treialon gwaith, mentora ayyb.

Am y wybodaeth ddiweddaraf, gweler gwefan y Ganolfan Byd Gwaith. <http://www.direct.gov.uk/en/Employment/Jobseekers/programmesandservices/index.htm>

### Hyfforddiant Cyn Cyflogaeth (PET)

Gall sicrhau bod gan ymgeiswyr am swyddi sgiliau llythrennedd a rhifedd ynghyd â rhai sgiliau swyddi sylfaenol a gwerthfawrogiad o amgylchedd gwaith darpar gyflogwr. Mae cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith yn atgyfeirio cleientiaid at lwybr hyfforddi gyda darparwydd enwebedig. Gellir trefnu llwybrau wedi'u teilwrio hefyd ar gyfer cyflogwyr sydd â nifer o swyddi gwag a gwarantu cyfweiliad ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.

### Buddion i Gyflogwyr

**Gall cyflogwyr elwa'n sylweddol o brofiad gwaith e.e.**

- Delio ag unrhyw ddiffygion sgiliau;
- Elwa o ymgeiswyr wedi'u sgrinio'n flaenorol a'u paratoi;
- Manteisio ar wasanaeth recriwtio am ddim y Ganolfan Byd Gwaith i sicrhau llenwi swyddi;
- Elwa o wasanaeth ôl-ofal cynghorwyr personol;
- Helpu i gael gwared â gwastraff diweithdra a gwella ein heconomi lleol.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd ar gael fel rhan o'r rhaglen waith gan gynnwys profiad gwaith, hyfforddiant a chymorth pellach. Mae cyfleoedd i wirfoddoli hefyd sy'n caniatáu datblygu profiad

### Treialon Gwaith

Cyfnod prawf cwbl ddi-dâl i'r cyflogwr. Caiff hyd y cyfnod prawf ei bennu fesul achos. Dylai'r cyfnod cychwynnol fod am ychydig ddyddiau yn unig ond gellir ei adolygu a'i ymestyn am hyd at uchafswm o 30 diwrnod mewn achosion eithriadol os bydd angen. Bydd y ceisiwr gwaith yn parhau i gael budd-daliadau yn ystod y treial. Mae'r cyflogwr a'r ymgeisydd yn cymryd rhan heb unrhyw oblygiadau. Gall Treialon Gwaith helpu i oresgyn amheuan cyflogwyr am addasrwydd y ceisiwr swydd sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod o amser wrth sicrhau'r ceisiwr swydd bod y swydd yn mynd i fod yn addas cyn gadael diogeledd budd-daliadau. Bydd costau teithio a lwfansau bwyd yn cael eu talu.

Lluniwyd Treialon Gwaith hefyd ar gyfer pobl sydd â'r awydd i weithio ond sy'n cael eu hanwybyddu naill ai cyn cyfweiliad y cyflogwr neu'r rhai nad sy'n perfformio'n dda mewn cyfweiliadau. Y cyflogwr sy'n gwneud y penderfyniad terfynol i gyflogi. I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â'ch canolfan waith leol.

### Adweithio

Mae hwn yn cael ei redeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac wedi'i lunio i ategu ac ychwanegu at y gwasanaeth a gynigir i weithwyr di-waith gan Ganolfan Byd Gwaith a Gyrfa Cymru. Mae'r cymorth hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac mae'n anelu at oresgyn rhwystrau i gael cyflogaeth newydd y mae unigolion sy'n cael eu heffeithio gan ddiswyddiadau'n eu hwynebu.

### Adapt

Llinell gymorth i roi cyngor ac arweiniad ar hyfforddiant i weithwyr sector cyhoeddus sy'n wynebu colli eu swyddi. Rhif ffôn 0800 100 900.

Mae cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer y rhai sydd am fynd yn hunangyflogedig neu sydd am gychwyn eu busnes eu hunain.



## Cefnogaeth i bobl Anabl

### Dewis Gwaith

Rhaglen wirfoddol newydd i helpu pobl anabl i ddod o hyd i waith. Mae'n disodli cynlluniau Cam at Waith, Paratoi at Waith a'r Cynllun Cyflwyno Swydd. Er mwyn manteisio ar gynllun Dewis Gwaith, mae angen i gwsmeriaid gael eu hatgyfeirio gan Ymgynghorydd Cyflogaeth i Bobl Anabl (DEA) mewn Canolfan Gwaith leol.

**Mynediad i waith** – gall gefnogi cyflogi pobl anabl drwy gefnogi addasu adeiladau, cefnogi darparu cyfarpar arbenigol neu ariannu teithio i waith.

### Cwrs Hyfforddi Cyn-cyflogaeth

yn esgor ar ganlyniadau

*Lansiodd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro gwrs hyfforddi Cadw Tŷ a luniwyd i ddenu ceiswyr swyddi sy'n hawlio budd-daliadau i rôl yn y GIG.*

*Dywedodd Judith Hardisty, Cyfarwyddwraig Adnoddau Dynol yr Ymddiriedolaeth: "Cynhelir y Cwrs Hyfforddi Cyn-cyflogaeth dros 10 niwrnod, gan ganolbwyntio ar recriwtio ar gyfer swyddi Cadw Tŷ. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwarantu cyfweiliadau i hawlwr budd-daliadau lleol sy'n cwblhau'r cwrs."*

*Dywedodd Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Simon Jones: "Nod Wythnos Agored y GIG yw annog recriwtio a hybu pwysigrwydd hylendid a glanweithdra o fewn ysbytai. Rydw i'n falch o allu croesawu recriwtiaid y Cwrs Hyfforddi i'r Ymddiriedolaeth gan ei fod yn dod â buddiannau mawr i ni a'r gymuned leol."*

*"Gobeithio y bydd hyn yn ein helpu i recriwtio mwy o bobl cymwys sydd wedi'u paratoi'n well ac wedi ymrwymo i weithio o fewn yr Ymddiriedolaeth."*

*Dywedodd Rheolwr Rhanbarthol ardal de-ddwyrain Cymru Canolfan Byd Gwaith:*

*"Rydw i wrth fy modd y bydd Canolfan Byd Gwaith yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro i sicrhau cyfleoedd swyddi i rai o'r bobl mwyaf anfanteisiol yn ein cymunedau."*

*Mae gan gyflogwyr fel yr Ymddiriedolaeth botensial aruthrol i newid bywydau pobl y mae eisiau ac angen gwaith arnynt.*

*Mae'r Ymddiriedolaeth yn dangos y ffordd i gyrff cyhoeddus eraill drwy ddangos eu hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt.*

*Llwyddodd ceiswyr swyddi i gael swyddi glanhau gyda'r Ymddiriedolaeth ar ôl cwblhau'r cwrs peilot cyn-cyflogaeth.*

*Dywedodd recriwt newydd, Phil Barnett, "Roedd y cwrs yn wych. Roedd yn rhoi gwybodaeth hynod ddefnyddiol am iechyd a Diogelwch a rheoliadau tân. Byddwn yn ei argymhell i unrhyw un sy'n chwilio am swydd o fewn yr Ymddiriedolaeth."*

*Dywedodd ei gydweithiwr Roger Smith, "Roeddwn i'n ofalwr oedd wedi bod yn ddi-waith ers 2001 felly roedd mynd ar y cwrs yn fy helpu i ddychwelyd i waith. Roedd yn hynod ddefnyddiol ac yn fy helpu i adfer fy hyder."*



# CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

**Mae'r asiantaethau isod yn ffynonellau gwybodaeth, cyngor a chymorth i sefydlu a rhedeg rhaglenni profiad gwaith.**

## Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru yn wasanaeth Cymru gyfan sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd am ddim. Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, sefydlwyd Gyrfa Cymru yn 2001 gan uno chwe chwmni gyrfaoedd ar draws Cymru o dan un enw. Ynghyd â darparu gwybodaeth a chyngor gyrfaoedd, mae Gyrfa Cymru'n rheoli gwasanaethau fel y llinell gymorth rhadffôn 'Cyngor Dysgu a Gyrfaoedd' (galwyd ynghynt yn learnirect) Ffôn: 0800 100 900. Arweiniad i Oedolion, Partneriaethau Busnes Addysg, Gwasanaethau Cefnogi Cyflogwyr a Phorth Ieuencid. [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)

## SCT (Swyddfa Cofnodion Troseddol)

Gwybodaeth a mynediad i wasanaethau ar gyfer ymgeiswyr SCT a'r cyhoedd [www.direct.gov.uk/crb](http://www.direct.gov.uk/crb)

Gwybodaeth i gyrrff cofrestredig a busnesau a sefydliadau cysylltiedig eraill sy'n defnyddio gwasanaeth SCT <http://business.wales.gov.uk/bdotg/action/detail?itemId=1087469010&lang=cy&site=230&type=RESOURCES>

## Yr Adran Addysg

Mae Adran Addysg Lloegr yn cyhoeddi Work Experience: A guide for Secondary Schools. Mae modd ei lawrlwytho o [www.education.gov.uk](http://www.education.gov.uk)

## Y Ganolfan Byd Gwaith

Mae'n cynnig cefnogaeth i bobl oed gwaith. Mae hefyd yn darparu porth i wasanaethau ar gyfer cyflogaeth a sgiliau i gyflogwyr. [www.direct.gov.uk/en/Employment/Jobseekers/index.htm](http://www.direct.gov.uk/en/Employment/Jobseekers/index.htm) a <http://business.wales.gov.uk/bdotg/action/layer?lang=cy&r.i=1087469010&r.s=m&r.t=RESOURCES&site=230&topicId=1073858787>

## Y Cyngor Cenedlaethol Profiad Gwaith

Mae'n hybu, cefnogi a datblygu profiad gwaith safonol er budd myfyrwyr, sefydliadau a'r economi. [www.work-experience.org](http://www.work-experience.org)

## Gyrfa GIG

Gwybodaeth i ofalwyr o fewn y GIG yn Lloegr. [www.nhs.uk](http://www.nhs.uk)

## GIG Cymru

Mae'r GIG yng Nghymru'n cael ei ariannu a'i gyfeirio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'n cynnig gwasanaethau cleifion. Mae sefydliadau cenedlaethol ychwanegol yn mynd i fod yn rhan o gynllun ail-drefnu fydd yn dod yn amlwg yn ystod 2009/10. [www.wales.nhs.uk/cym](http://www.wales.nhs.uk/cym)

## Gyrfa GIG Cymru

Y gwasanaeth gyrfaoedd dwyieithog i gael gwybodaeth a chyngor ar weithio a hyfforddiant o fewn GIG Cymru. Mae'r gwasanaeth yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Gweithlu o fewn NLIAH [www.nhs.walescareers.com](http://www.nhs.walescareers.com)

## NLIAH

Mae'r Asiantaeth Genedlaethol Arweinyddiaeth ac Arloesi ar gyfer Gofal Iechyd neu NLIAH yn gweithio gyda GIG Cymru i sicrhau bod ei weithlu yn addas i bwrpas i gyflenwi gofal iechyd o'r radd flaenaf i bobl Cymru. Mae tîm NLIAH yn gweithio gydag unigolion, timau, sefydliadau, cymunedau iechyd a'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach i greu gwerth cyhoeddus i bobl Cymru. Mae mwy o wybodaeth am weithgareddau a phrosiectau presennol ar gael o wefan NLIAH ar [www.nliah.wales.nhs.uk](http://www.nliah.wales.nhs.uk)

## Sgiliau ar gyfer iechyd

Mae'r Cyngor Sgiliau Sector (SSC) ar gyfer y sector iechyd yn y DU. Mae Sgiliau ar gyfer iechyd yn helpu'r sector cyfan i ddatblygu atebion sy'n cyflenwi gweithlu cymwys a hyblyg yn y DU er mwyn gwella iechyd a gofal iechyd. [www.skillsforhealth.org.uk](http://www.skillsforhealth.org.uk)

## Cam i mewn i'r GIG

Mae hon yn wefan a luniwyd gan Gyrfa GIG Lloegr wedi'i hanelu at y grŵp oed 14-19 [www.stepintothens.nhs.uk](http://www.stepintothens.nhs.uk)

## Llywodraeth Cymru

Llywodraeth ddatganoledig Cymru gyda chyfrifoldeb dros iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Addysg ymhlith portffolios eraill. Gellir cael gwybodaeth am bynciau fel dysgu a sgiliau a'r Adran Plant, Addysg, Dysgu gydol Oes a Sgiliau o'i gwefan. <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/?skip=1&lang=cy>

## Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Mae'n darparu gwybodaeth a gwasanaethau am ariannu gyda gwasanaethau sy'n cynnwys llinell gymorth dros y ffôn. [http://www.wcva.org.uk/main/dsp\\_home.cfm?&lang=cy](http://www.wcva.org.uk/main/dsp_home.cfm?&lang=cy)

# TEMPLEDI

Mae'r templedi hyn yn cynnwys prif elfennau'r gwaith papur y byddwch chi eu hangen i sefydlu rhaglen profiad gwaith. Dilynwch y dolenni i lawr lwytho copi fyddwch chi'n gallu ei ddiwygio i'ch anghenion personol:

- 1) **Sampl o bolisi profiad gwaith** – mae hwn yn sampl o bolisi profiad gwaith mewn sefydliad GIG sy'n dilyn arfer da o gyswilt lefel bwrdd gyda chyfarwyddwr sy'n atebol.
- 2) **Cais am lleoliad profiad gwaith** – dylid anfon y ffurflen hon at fyfyrwr sy'n gofyn am gyfle profiad gwaith (yn ddelfrydol drwy gynllun a gydlynwyd gan Gyrfa Cymru) er mwyn galluogi cyflogwyr i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol cyn dechrau trefnu'r lleoliad.
- 3) **Holiadur iechyd cyfrinachol cyn-llleoliad** – mae'r ffurflen hon yn angenrheidiol i asesu a ydy'r unigolyn yn addas i gael lleoliad profiad gwaith a sicrhau na fydd yr unigolyn neu'r bobl y byddan nhw efallai'n dod i gysylltiad â nhw, mewn unrhyw fath o risg.
- 4) **Enghraifft o asesiad risg** – rhaid hysbysu pobl ifanc am y risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch a nodwyd gan asesiadau risg y cyflogwr a'r mesurau a gyflwynwyd i leihau neu, yn ddelfrydol, i ddileu unrhyw risgiau sylweddol.
- 5) **Hysbysu am risg** – dylid defnyddio'r ffurflen hon i hysbysu yswirwyr y sefydliad iechyd am bresenoldeb profiad gwaith.
- 6) **Rhestr wirio ar gyfer ysgolion am y risgiau sydd wedi'u cynnwys gan y cyflogwr** – dylid defnyddio'r ffurflen hon i hysbysu ysgol/coleg am y sicrwydd yswiriant sydd gan y sefydliad iechyd.
- 7) **Cytundeb Profiad Gwaith** – cytundeb rhwng cyflogwr a'r myfyriwr i gadarnhau derbyn lleoliad profiad gwaith.
- 8) **Taflen wybodaeth lleoliad** – mae'n rhoi cadarnhad ysgrifenedig i fyfyrwr am eu lleoliad ac mae'n rhoi gwybodaeth ar god ymddygiad a sut i wneud y gorau o'u lleoliad.
- 9) **Awgrymiadau ar gyfer tasgau clinigol i fyfyrwr profiad gwaith** – rhestr o syniadau am dasgau clinigol y gall myfyrwr eu cynnal i helpu wrth drefnu rhaglen waith.
- 10) **Rhestr wirio ymsefydlu** – rhestr wirio ddefnyddiol i atgoffa cyflogwyr am y pwyntiau sydd angen eu trafod gyda'r myfyrwr cyn dechrau'r lleoliad.
- 11) **Dyddiadur dyddiol** – i'w gwblhau gan fyfyrwr yn ystod eu lleoliad i gofnodi eu meddyliau a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu. Ddim yn hanfodol os bydd myfyrwr yn defnyddio Trefnydd Profiad Gwaith Gyrfa Cymru (gweler [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com))
- 12) **Ffurflen werthuso** – i'w chwblhau gan fyfyrwr ar ddiwedd eu lleoliad i adlewyrchu ar yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni a pha mor ddefnyddiol oedd y lleoliad iddyn nhw. Ddim yn hanfodol os bydd myfyrwr yn defnyddio Trefnydd Profiad Gwaith Gyrfa Cymru (gweler [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com))
- 13) **Adroddiad goruchwyliwr** – i'w gwblhau gan y goruchwyliwr sy'n gyfrifol am y myfyriwr i adlewyrchu ar sut maen nhw wedi perfformio. Ddim yn hanfodol os bydd myfyrwr yn defnyddio Trefnydd Profiad Gwaith Gyrfa Cymru (gweler [www.careerswales.com](http://www.careerswales.com)) Mae'n bosibl y byddwch chi'n dymuno defnyddio cefn y templed hwn ar gyfer tystysgrif myfyrwr eich sefydliad chi.

ADRAN 9

# Templed 1:

## Sampl o bolisi profiad gwaith

Polisi a gymeradwy-wyd

### Profforma

<b>Teitl dogfen:</b>	Polisi Profiad Gwaith		
<b>Awdur:</b>	Ychwanegwch enw a swydd yr awdur		
<b>Disgrifiad:</b>	Disgrifiwch amcanion a chyfrifoldebau'r broses profiad gwaith		
<b>Pwyllgor Dilysu Terfynol:</b>	Ychwanegwch y pwyllgor/gyfarwyddiaeth sy'n atebol		
<b>Dyddiad y cytunwyd arno:</b>	Nodwch y dyddiad	<b>Dyddiad anfon at weinyddwr y polisi:</b>	Nodwch y dyddiad
<b>Swyddog Ymatebol:</b>	Ychwanegwch enw a swydd y swyddog ymatebol (h.y. cyfarwyddwr)		
<b>Swyddog Cyfrifol:</b>	Ychwanegwch enw a swydd y swyddog cyfrifol (h.y. cydlynnydd y profiad gwaith)		
<b>Cyfarwyddiaethau sy'n defnyddio'r ddogfen:</b>	Ychwanegwch y cyfarwyddiaethau perthnasol		
<b>Amlygwyd i:</b>	Ychwanegwch y staff/adrannau/cyfarwyddiaethau allweddol perthnasol		
<b>Dyddiad gweithredu'r ddogfen:</b>	Nodwch y dyddiad	<b>Dyddiad yr adolygiad nesaf:</b>	Nodwch y dyddiad
<b>Dyddiad (au) adolygu</b> (os yn berthnasol)	Nodwch y dyddiad		
<b>Manylion yr adolygiad diweddaraf</b>	Amlinellwch y prif newidiadau a wnaed i'r ddogfen		

<b>Llofnod Cadeirydd y Pwyllgor Dilysu:</b>
<b>Printiwch eich enw:</b>
<b>Swydd:</b>

### Cyflwyniad

1. Mae cynnydd ym mentrau ysgolion a cholegau ar gyfer myfyrwyr i ehangu eu dealltwriaeth o 'Fyd Gwaith' ac felly mae'r galw ar y sefydliad GIG wedi cynyddu.

### Amcanion Profiad Gwaith

2. Darparu cyflwyniad i arferion gwaith, fel gofynion presenoldeb ac amodau gwaith ynghyd â darparu hyfforddiant mewn sgiliau cyfathrebu sylfaenol.
3. Ni ddylid defnyddio myfyrwyr a phobl ifanc i gymryd lle staff parhaol. Dylid gwneud pob ymdrech i ddarparu cwrs hyfforddi strwythuredig a phrofiad fydd yn eu cynorthwyo i gael swydd gyflogedig barhaus yn y dyfodol y tu mewn neu y tu allan i'r GIG.

### Cyfrifoldebau

4. Mae'r sefydliad GIG yn derbyn cyfrifoldeb dros iechyd a diogelwch myfyrwyr tra ar dir y sefydliad GIG ac mae sicrwydd yswiriant ar gael felly drwy'r Gronfa Risg Cymru.
5. Dylai myfyrwr sy'n cael ei dderbyn/derbyn ar gyfer profiad gwaith gael yr un hawliau a manteision ag aelod parhaol o'r staff a dylai gael y dillad amddiffynnol arbenigol priodol a'r cyfarpar diogelwch.
6. Disgwylir i fyfyrwyr wisgo dillad ac esgidiau addas i'r sefyllfa waith a bod yn daclus a thrwsiadus bob amser.
7. Cyfrifoldeb y myfyrwr yw hysbysu'r adran yn yr Ysbyty y maen nhw wedi'i rhoi ynddi os na fyddan nhw'n gallu bod yn bresennol.
8. Dylai myfyrwyr hysbysu'r goruchwyliwr priodol pan fyddan nhw'n cyrraedd ac yn gadael e.e. Rheolwr Adran/Prif Weinyddes Ward/Nyrs sy'n Gyfrifol.
9. Gall hyd a chymhlethdod lleoliadau o'r fath amrywio. Felly, mae'n hanfodol bod gan y sefydliad GIG bwynt canolog ar gyfer monitro lleoliadau o'r fath ac i roi cyngor i reolwyr a myfyrwyr yn ôl y gofyn.
10. Dylid sianelu pob cais am brofiad gwaith o unrhyw fath i'r sefydliad GIG [enw'r adran].

11. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd ceisiadau'n cael eu gwneud i'r [enw'r adran] gan y myfyrwr neu'r coleg a byddan nhw wedyn yn derbyn pecyn sy'n cynnwys xxxx. Ar ôl derbyn y ffurflen gais wedi'i chwblhau, bydd yr adran [enw'r adran] wedyn naill ai'n cysylltu:

11.1. â'r adran benodol yr oedd y myfyrwr yn gofyn amdani yn unol â bwriadau ei yrfa;

### neu'n

11.2. dewis adran sy'n ymddangos yn debyg i ddymuniadau a bwriadau gyrfa'r myfyrwr gan ystyried oed y myfyrwr. Byddan nhw wedyn yn cysylltu â'r adran yn gofyn iddyn nhw ystyried lleoliad posibl.

12. Ar ôl cytuno ar lleoliad, bydd yr [enw'r adran] yn gyfrifol am ei gadarnhau gyda'r myfyrwr a'r adran dan sylw, drwy:

12.1. anfon llythyr cadarnhad i'r myfyrwr a rhoi cyfarwyddiadau fel enw cyswllt, amser dechrau, hyd y lleoliad ac adran y lleoliad; a bydd

12.2. yr adran/y rheolwr dan sylw'n derbyn copi o'r llythyr hwn.

13. Yn achos pryderon yn ymwneud â'r holiadur gwirio iechyd wedi'i gwblhau, bydd hwn yn cael ei anfon at iechyd Galwedigaethol sydd â'r hawl i ofyn i fyfyrwr profiad gwaith fynychu'r Adran ar gyfer apwyntiad os byddan nhw'n meddwl bod hynny'n angenrheidiol.

14. Os bydd rheolwr yn dymuno terfynu lleoliad yn ystod neu cyn y dyddiad disgwylidig, dylai gysylltu ag [enw'r adran] yn y lle cyntaf.

15. Dylai pob myfyrwr sy'n cael lleoliad mewn meysydd clinigol fod o oed cyflogaeth – **fel a ganlyn:** Dylai myfyrwyr blwyddyn 10 sy'n 14 oed + gael cynnig lleoliadau sy'n briodol i'w hoed a dylid sicrhau eu bod nhw'n briodol i'r amgylchedd lle maen nhw'n gweithio. dyddiad [dyddiad].

## Templed 2:

### Cais am leoliad profiad gwaith

A fyddech chiystal â chwblhau'r ffurflen gais hon mewn inc du. Bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.

#### Manylion Personol

Teitl: \_\_\_\_\_ Cyfenw: \_\_\_\_\_ Enw Cyntaf: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad ar gyfer gohebiaeth: \_\_\_\_\_

Dyddiad geni \_\_\_\_\_ E-bost: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn: \_\_\_\_\_ Symudol: \_\_\_\_\_

Perthynas agosaf \_\_\_\_\_ rhif ffôn cyswllt \_\_\_\_\_

Ysgol/coleg: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

Enw cyswllt \_\_\_\_\_ rhif ffôn \_\_\_\_\_

Athro cyswllt: \_\_\_\_\_

Rhif ffôn: \_\_\_\_\_

Dyddiadau profiad gwaith: \_\_\_\_\_

Maes/adran â diddordeb: \_\_\_\_\_

Cyswllt mewn argyfwng \_\_\_\_\_ rhif ffôn \_\_\_\_\_

Cyfle cyfartal – monitro

#### Profiad gwaith neu gyflogaeth flaenorol

A fyddech chiystal â rhoi manylion unrhyw waith cyflogedig neu wirfoddol blaenorol a gawsoch.

Manylion cyflogwyr	Dyddiadau i/o	Dyletswyddau a chyfrifoldebau

#### Gwybodaeth gefnogol

##### Ymhle yr hoffech chi gael y lleoliad?

###### Pam?

Dyma eich cyfle i hybu eich hun, i nodi pam yr hoffech gael rhywfaint o brofiad gwaith yn y sector iechyd. A fyddech chiystal â defnyddio'r gofod hwn i roi unrhyw wybodaeth gefnogol i gydfynd â'ch cais. Gall gwybodaeth gefnogol fod yn unrhyw beth nad sydd wedi'i gynnwys yn yr atebion i'r cwestiynau yn y ffurflen a gall gynnwys unrhyw hobiau, diddordebau neu weithgareddau eraill naill ai o fewn neu y tu allan i'r ysgol yr ydych chi'n eu mwynhau (gallwch barhau ar dudalen ar wahân os bydd angen):

##### Cytundeb myfyrrwyr, rhieni ac athrawon i ofynion y sefydliad GIG

1. Mae'r sefydliad GIG yn gosod pwysigrwydd mawr ar yr angen am sylw i iechyd a Diogelwch yn y gwaith. Mae cyfrifoldeb arnoch chi i ymgyfarwyddo â'r rheolau diogelwch yn y gweithle, i ddilyn y rheolau hyn a gwneud defnydd o gyfleusterau a chyfarpar sy'n cael eu darparu er mwyn eich diogelwch. Mae'n hanfodol bod adroddiad yn cael ei gyflwyno ar bob damwain, pa mor fychan bynnag.
2. Bydd y sefydliad GIG hefyd yn disgwyl i chi arsylwi ar reolau a rheoliadau'r gweithle sy'n cael eu dwyn i'ch sylw. Nodwch fod Polisi Dim Ysmygu yn yr amgylchedd gwaith i gyd a bod trefniadau diogeledd ar gyfer y mwyafrif o'r lleoliadau hyn.
3. Mae'r sefydliad GIG yn cefnogi cyfle cyfartal mewn cyflogaeth yn llwyr ac yn gwrthwynebu pob math o gamwahaniaethu anghyfreithiol neu annheg ar sail tarddiad ethnig, rhyw, anabled, oed, crefydd neu rywioldeb.
4. Fel arfer, ni chodir tâl am fwyd na chostau teithio.

##### Rydw i wedi darllen a deall y gofynion uchod.

Arwyddwyd (myfyriwr): \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

A fyddech chiystal â nodi eich oed: o dan 18 \_\_\_ 18 + \_\_\_

##### A fyddech chiystal â sicrhau'r llofnodion canlynol: (o dan 18oed.)

###### Rhiant/Gwarchodwr

Rydw i wedi darllen y wybodaeth am y rhaglen profiad gwaith/arsylwi ac wedi deall y gofynion. Byddaf yn sicrhau bod y myfyriwr yn cyflawni'r goblygiadau hyn ac yn cadarnhau nad yw ef/hi'n dioddef gan unrhyw afiechyd a all greu perygl iddo/iddi neu i'r rhai sy'n gweithio gydag ef/gyda hi. Rhoddaf ganiatâd i'm mab/merch \_\_\_\_\_ fynychu'r cwrs ac i arsylwi yn ystod ei ymweliad/hymweliad [enw'r sefydliad]

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

###### Athro (os bydd o dan 18 oed):

Rydw i wedi darllen y wybodaeth am y rhaglen profiad gwaith ac yn rhoi caniatad i

\_\_\_\_\_ fynychu'r cwrs ac arsylwi yn ystod ei ymweliad/hymweliad â [enw'r sefydliad.]

Cadarnhaf hefyd ei fod/bod ar hyn o bryd yn astudio yn \_\_\_\_\_

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

## Templed 3:

### Holiadur iechyd cyfrinachol cyn-lleoliad

**A fyddech chi cystal â chwblhau'r ffurflen gais hon mewn inc du a'i dychwelyd i'r adran iechyd galwedigaethol. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol.**

Enw olaf: \_\_\_\_\_

Enw cyntaf: \_\_\_\_\_

Dyddiad Geni: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad Cartref: \_\_\_\_\_

\_\_\_\_\_ Cod Post: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: \_\_\_\_\_

Adran \_\_\_\_\_

1. A oes gennych unrhyw salwch neu anabledd ar hyn o bryd?  
Os oes, a fyddech chi cystal â rhoi manylion: Oes  Nac oes

2. A ydych chi wedi cael unrhyw salwch neu lawdriniaethau difrifol yn y gorffennol? Os Ydw, a fyddech chi cystal â rhoi manylion. Ydw  Nac ydw

3. Ydych chi'n cymryd unrhyw feddyginiaethau, mewnanadlwyr, pigiadau neu ddiferion llygaid/clustiau ar hyn o bryd, neu a ydy'r meddyg yn rhagnodi'r rhain?  
Os Ydw, a fyddech chi cystal â rhoi manylion: Ydw  Nac ydw

4. Ydy eich gallu i wneud gwaith corfforol yn cael ei gyfyngu mewn unrhyw fodd? Ydy  Nac ydy

5. Ydych wedi cael neu wedi bod mewn cysylltiad ag unrhyw afiechydon heintus yn y pedair wythnos ddiwethaf? Ydw  Nac ydw

6. Yn erbyn pa un o'r afiechydon heintus canlynol rydych chi wedi cael eich imiwneiddio?

BCG (Twbercwlosis)  Pertussis (Y Pas)

Difftheria  Polio

Y Frech Goch  Y Frech Goch Almaenig

Llid yr Ymennydd C  Tetanws

Clwy'r Pennau

7. Ydych chi'n dioddef gan alergeddau? Os felly, cofiwch nodi'r hyn mae gennych alergedd yn ei erbyn. Ydw  Nac ydw

Llofnod: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant/Gwarchodwr os o dan 18 oed: \_\_\_\_\_

Os bydd unrhyw un o'r amgylchiadau uchod yn newid rhwng amser cwblhau'r ffurflen ac amser y lleoliad, rhaid i chi hysbysu'r [enw'r adran] ar unwaith.

## Templed 4:

### Enghraifft o asesiad risg

#### A Difrifoldeb:

5: Trychinebau	Marwolaethau lluosog sy'n ymwneud ag unrhyw berson
4: Trychineb	Marwolaeth un person
3: Mawr	Mawr Anafiadau mawr/difrifol. Goblygiadau amgylcheddol mawr. Colledion ariannol mawr. Colli enw da. Ymyrraeth fawr i fusnes. Llawer o gleifion yn cael eu heffeithio/angen triniaeth.
2: Difrifol	Angen triniaeth feddygol. Ychydig o oblygiadau amgylcheddol. Colled ariannol fawr. Colli ychydig o'r enw da. Ymyrraeth ganolradd i fusnes.
1: Mân	Arsylwadau ychwanegol. Triniaeth cymorth cyntaf. Colled ariannol ganolradd.
0: Dibwys	Dim anafiadau. Dim llawer o golled ariannol.

#### B Tebygolrwydd:

5: Sicr	Disgwylir i'r peth ddigwydd o dan bob amgylchiad.
4: Tebygol	Bydd y peth yn digwydd yn y mwyafrif o amgylchiadau.
3: Canolradd	Bydd y peth yn digwydd ar ryw adeg.
2: Annhebygol	Gall y peth ddigwydd ar ryw adeg.
1: Anghyffredin	Mae'n bosibl y bydd y peth yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.
0: Amhosibl	Ni all y peth ddigwydd o dan unrhyw amgylchiad.

Ysbyty:  
Ward/Adran:  
Aseswyd gan:

Rhif Aseu:  
Dyddiad Aseu:  
Dyddiad Adolygu:  
(dim mwy na 6 mis o'r dyddiad aseu)

Rhif.	Gweithgaredd Gwaith/ Amyg/chedd: Perygl a Nodwyd	Camau Cywiro presennol	A Difrifoldeb 0-5	B Tebygolrwydd 0-5	Sgôr graddio risg A x B	Cam (au) pellach sydd ei angen/eu hangen	Person sy'n gyfrifol am gymryd y cam (au)	Dyddiad cwblhau'r cam(au)

Llofnod y Rheolwr: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_  
Printiwrch yr Enw: \_\_\_\_\_

## Templed 5: Hysbysiad risg: Disgyblion ysgol yn y gweithle

[Enw a chyfeiriad y cwmni/sefydliad sydd wedi'i yswirio.]

At [enw a chyfeiriad yr yswiriwr]

Mae'r yswiriedig uchod yn hysbysu'r yswiriwr o'r gweithgareddau a drefnwyd ar gyfer disgyblion yn y gweithle. Cyflwynir y manylion ar y daflen atodedig. Gwahoddir yr yswiriwr i gadarnhau, o fewn mis, bod y risgiau a nodwyd wedi'u cynnwys sine die, ac i hysbysu am unrhyw addasiad i'r premiwm. Ar gyfer yr yswiriedig

Dyddiad \_\_\_\_\_

Manylion y gweithgareddau arfaethedig yn y gweithle fydd yn cynnwys disgyblion ysgol

Polisi	Tic	Rhif polisi	
Atebolrwydd Cyflogwyr Atebolrwydd Cyhoeddus Niwed Materol			
Natur y gweithgaredd	Nifer y disgyblion	Hyd yr arhosiad	
Profiad gwaith Cysgodi gwaith Arsylwi gwaith Ymweliadau byr Arall			
Amledd gweithgareddau o'r fath	Un waith yn unig	Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn	Yn aml bob blwyddyn
Profiad gwaith Cysgodi gwaith Arsylwi gwaith Ymweliadau byr Arall Rhybudd o beryglon arbennig			

Ffynhonnell: Profiad Gwaith – Arweiniad i gyflogwyr. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

## Templed 6:

# Rhestr wirio o'r risgiau a ddiogelwyd gan gyflogwyr ar gyfer ysgolion

### Gwybodaeth i ysgolion/golegau am ddarpariaeth yswiriant y cyflogwyr.

O safbwynt lleoliadau arfaethedig disgyblion/myfyrwyr o [ysgol/coleg] \_\_\_\_\_

i \_\_\_\_\_ [enw'r sefydliad], mae'r ysgol/coleg angen cadarnhad bod gan y sefydliad y sicrwydd yswiriant angenrheidiol a bod yswirwyr wedi cadarnhau eu bod wedi derbyn y risg hwn.

A fyddech chi cystal â chadarnhau hyn drwy roi ✓ yn y bocsys isod

#### 1. Niwed damweiniol ayyb

- i ddisgyblion/fyfyrwyr
  - a. ar Brofiad Gwaith (Atebolrwydd Cyflogwyr)
  - b. arall (Atebolrwydd Cyhoeddus)
- i gyflogwyr (Atebolrwydd Cyflogwyr)
- i ymwelwyr eraill, aelodau'r cyhoedd ayyb

#### 2. Colli neu niwed i eiddo

- eiddo cyflogwyr (Niwed Materol)
- eiddo arall (gan gynnwys rhai disgyblion/myfyrwyr) (Atebolrwydd Cyhoeddus)

Dylid dychwelyd y ffurflen hon i [enw'r cyswllt a chyfeiriad yr ysgol/y coleg]

---

---

---

---

---

---

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Ffynhonnell: Profiad Gwaith – Arweiniad i gyflogwyr. Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd

## Templed 7:

# Cytundeb Profiad Gwaith

Cyfeiriad y sefydliad

Ein Cyf: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Annwyl

Mae'n bleser gen i allu cadarnhau ein cynnig o gytundeb/leoliad anrhydeddus i weithio o fewn *Teitl y sefydliad GIG*.

A fyddech chi cystal â darllen yr amodau a'r telerau'n ofalus ac arwyddo'r ddau gopi o'r llythyr gan ddychwelyd un copi i mi.

Mae'r lleoliad hwn am y cyfnod o *diwrnod a dyddiad* i *diwrnod a dyddiad* yn yr adran/ward enw'r adran.

Y trefniadau/oriau gwaith fydd *dyddiadau ac amseroedd ayyb*. A fyddech chi cystal â mynd at *enw'r cyswllt* fydd yn gyfrifol am eich goruchwyllo drwy gydol y lleoliad hwn.

Mae manylion penodol y lleoliad wedi'u hamlinellu yn y daflen wybodaeth atodedig am y lleoliad.

**Trefniadau absenoldeb salwch:** Os na allwch chi fynychu oherwydd salwch, dylech hysbysu'r Goruchwyliwr Clinigol neu'r Pennaeth Adran cynted ag sy'n bosibl a rhoi gwybod i'r Rheolwr am y dyddiad dychwelyd tebygol.

**Bathodynau Diogeledd:** Mae'n ofynnol i bob person arddangos bathodyn adnabod wrth weithio ar unrhyw safle sy'n gysylltiedig â'r sefydliad GIG. Byddwch chi'n derbyn hwn oddi wrth y person sy'n gyfrifol am eich goruchwyllo, pan fyddwch chi'n cyrraedd.

**Gwisg ffurfiol:** Rhowch fanylion y wisg ffurfiol a'r trefniadau ar gyfer ei chael.

**Cyfrinachedd:** Ni ddylid ar unrhyw gyfrif ddatgelu unrhyw fater o natur gyfrinachol, yn arbennig gwybodaeth yn ymwneud â diagnosis a thriniaeth cleifion, cofnodion staff unigol a/neu gleifion a manylion prisiau ac amodau cytundebau na'u trosglwyddo i unrhyw berson/bersonau eraill heb awdurdod. Gellir terfynu'r lleoliad os bydd yr amod cyfrinachedd yn cael ei thorri.

**Terfynu lleoliad profiad gwaith:** Gall unrhyw gamymddwyn (e.e. lladrata) neu dorri cyfrinachedd achosi terfynu eich lleoliad. Cynhelir trafodaethau gyda eich ysgol/coleg cyn terfynu'r lleoliad.

**Deddf iechyd a Diogelwch yn y Gwaith:** Atgoffir chi ei fod yn ddyletswydd arnoch i gymryd gofal rhesymol i osgoi anaf i chi eich hun ac i eraill drwy eich gweithgareddau gwaith yn unol â'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, a disgwylir i chi gydymffurfio â pholisïau'r sefydliad GIG wrth gyflawni'r gofynion statudol hyn. Mae copi o'r polisi iechyd a Diogelwch ar gael i'w archwilio.

**Colli/achosi niwed i bethau personol:** Ni ellir derbyn unrhyw rwymedigaeth am golli neu niweidio eiddo personol ar eiddo'r Gwasanaeth Iechyd drwy fyrgleriaeth, tân, lladrad neu unrhyw beth arall. Cynghorir staff yn unol â hyn i sicrhau eu sicrwydd yswiriant eu hunain.

Yn ystod cyfnod eich lleoliad, ni fyddwch, ar unrhyw adeg, heblaw pan fydd y gyfraith yn gofyn am hynny, yn cael eich ystyried fel cyflogai yn sefydliad y GIG ac ni fyddwch yn gymwys i gael cydnabyddiaeth am eich lleoliad gwaith o fewn sefydliad y GIG.

Yn ddiffuant

Enw

Teitl Swydd

#### Ffurflen dderbyn

Derbyniaf y lleoliad hwn ar yr amodau a'r telerau a amlinellir uchod a chedwais gopi.

Arwyddwyd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod Rhiant/Gwarcheidwad os o dan 18 oed: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

# Templed 8:

## Taflen wybodaeth ar gyfer Lleoliad

<b>Proffesiwn:</b>	
<b>Adran/Uned:</b>	
<b>Enw'r Goruchwyliwr:</b>	
<b>Lleoliad:</b>	
<b>Rhifau Cyswllt:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adran:</li> <li>• Rhif Argyfwng:</li> <li>• Adnoddau Dynol:</li> </ul>
<b>Disgrifiad o'r Adran/Uned:</b>	
<b>Oriau Gwaith/amser seibiant:</b>	

### Gweithgareddau i'w cyflawni

Mae'r rhestr hon yn enghraifft o'r mathau o weithgareddau y byddwch chi'n rhan ohonyn nhw yn y lleoliad hwn:

1. \_\_\_\_\_
2. \_\_\_\_\_
3. \_\_\_\_\_

Fodd bynnag, mae'n amhosibl rhestru pob gweithgaredd y gallan nhw ofyn i chi ei gyflawni a dylech fod yn barod i gwblhau tasgau eraill os gofynnir i chi.

### Deilliannau dysgu gweithgareddau

1. \_\_\_\_\_
2. \_\_\_\_\_
3. \_\_\_\_\_

### Nodweddion Personol

Pan fyddwch ar leoliad profiad gwaith, disgwylir i chi:

1. Gynnal amgylchedd diogel, cyfeillgar, gofalus ar gyfer staff, cleifion ac ymwelwyr.
2. Drin cleifion, eu teuluoedd ac ymwelwyr yn yr un modd ag y bydden ni'n hoffi cael ein trin ein hunain
3. Gefnogi cydweithwyr gyda gwaith tîm
4. Baratoi ymateb cwrtais a defnyddiol i unrhyw gwestiwn
5. Fod yn fodel rôl rhagorol i sefydliad y GIG.

### Gwisg

Dylai gwisg fod yn addas i'r amgylchedd lleoliad gwaith. Dyma rai awgrymiadau ynglŷn â'r hyn y dylech ei wisgo.

- Disgwylir bod disgyblion/myfyrywyr yn cyrraedd wedi'u gwisgo'n drwsiadus os mewn swyddfa neu'n delio â'r cyhoedd.
- Dylai dillad ganiatáu llawer o symudiadau. Dylid gwisgo trowsus hir neu sgert at ganol y goes gyda chrys polo neu grys T gan fod ardaloedd clinigol yn gallu bod yn eithaf cynnes.
- Dylai esgidiau orchuddio'r droed i gyd gyda sawdl isel. Mae esgidiau chwaraeon yn dderbyniol os byddan nhw'n lân ac wedi'u cadw'n dda.
- Dylid newid dillad yn ddyddiol i leihau'r risg o draws-heintio.
- Ni ddylid gwisgo gemwaith heblaw am wats a modrwy briodas blaen.
- Mae'n bosibl y bydd dillad segura'n fwy priodol os bydd y disgybl/myfyriwr yn gweithio ar y tir, ond bydd angen esgidiau cryf.
- Byddwch chi'n cael set o offer sgwrio llawfeddygol ar gyfer eich amser yn y theatr os bydd hyn yn briodol i'ch lleoliad.

### Cyfrinachedd

Ni ddylech ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol a all adnabod claf unigol neu aelod o'r staff na gwybodaeth am fusnes sefydliad y GIG.

Rhaid i chi hefyd roi gwybod i'ch goruchwyliwr ar unwaith os byddwch chi'n adnabod claf yn bersonol. Mae hyn yn wir hyd yn oed os bydd yn glaf mewn gwasanaeth sy'n wahanol i faes eich lleoliad.

### Iechyd a Diogelwch

- Byddwch chi'n cael briff iechyd a diogelwch pan fyddwch chi'n dechrau ar eich lleoliad a dylech dalu sylw i'r wybodaeth fyddwch chi'n ei chael yn y briffio hwn.
- Byddwch chi'n cael bathodyn ID ar ddechrau eich lleoliad; rhaid i chi ei wisgo bob amser.
- Byddwch chi'n cael eich goruchwyllo bob amser a hefyd yn cael hyfforddiant pan fyddwch chi'n defnyddio cyfarpar, os bydd hyn yn briodol.

### Gweithio mewn Ysbyty

Hoffem i chi fwynhau eich lleoliad a chael profiad o fywyd mewn ysbyty. Fodd bynnag, gall hefyd fod yn brofiad dwys iawn ac nid yw heb risg. Mae'n bosibl y byddwch chi'n gweld digwyddiadau trallodus neu hyd yn oed yn teimlo'n sâl. Rydym yn ystyried iechyd a diogelwch ar eich lleoliad gwaith yn hynod ddifrifol ac mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i llunio i helpu i sicrhau bod eich lleoliad mor ddiogel ag sy'n bosibl.

Ystyrir bod ysbyty'n sefydliad risg uchel ac mae cysgodu clinigwr mewn ysbyty'n eich amlygu i elfen o risg. Rydym wedi llunio set o reolau a chanllawiau sy'n anelu at leihau'r risg hwn. Fodd bynnag, mae'n amhosibl dileu risg yn gyfan gwbl a rhaid i chi hefyd gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau eich diogelwch eich hun drwy wrando ar a dilyn cyfarwyddiadau bob amser, yn arbennig pan fydd y rhain yn ymwneud â materion iechyd a diogelwch.

Rhaid i chi fod yn barod ar gyfer cael eich gwrthod rhag mynd i sesiynau wedi'u trefnu ar fyr rybudd ac mae'n bosibl y gofynnir i chi adael sesiwn os ystyrir ei bod yn annogol neu'n anaddas i chi fod yn bresennol. Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais i chi ymadael neu beidio â mynd i mewn i rywle ar unrhyw adeg.

Isod, mae mwy o wybodaeth sy'n benodol i'ch lleoliad. Cofiwch sicrhau eich bod chi a'ch rhieni/gwarchodwyr yn darllen y daflen wybodaeth hon ar y lleoliad yn ofalus. Mae llawer o wybodaeth i'w dysgu, ond bydd darllen y wybodaeth hon yn eich paratoi ar gyfer eich lleoliad.

Os ydych chi'n ansicr am unrhyw ran o'r wybodaeth a gawsoch neu am y lleoliad maen nhw wedi'i gynnig i chi, yna rhaid i chi drafod hyn gyda'r person cyswllt ar gyfer eich maes neu'r cydlynnydd profiad gwaith cynted ag sy'n bosibl. Gall hyn fod cyn, yn ystod neu ar ôl eich lleoliad.

### Eich Lleoliad

#### Seicolegol/Emosiynol

O fewn gwaith bob dydd yr ysbyty, mae'n bosibl y byddwch chi'n cael eich amlygu i sefyllfaoedd trallodus. Gall hyn gynnwys claf yn drallodus, cyflwr claf yn dirywio neu hyd yn oed farwolaeth claf. Mae'n bosibl y byddwch chi hefyd yn gweld gweithdrefnau neu gyflyrau fydd yn eich gofidio. Er y byddwn ni'n gwneud ein gorau i achub y blaen ar y sefyllfaoedd hyn, dylech chi fod yn barod amdany'n nhw. Cofiwch ddweud wrth y person sy'n gweithio gyda chi os byddwch chi'n gofidio, er mwyn i ni allu trafod y materion hyn cynted ag sy'n glinigol bosibl.

Mae risg o gamdrin geiriol gan gleifion neu ymwelwyr a'r sefydliad GIG. Ni fydd disgwyl i chi ddelio ag unrhyw ddigwyddiad fel hyn. Os byddwch chi'n ddigon anffodus i fod yn dyst i'r math hwn o ymddygiad, dylech esgusodi eich hun a chysylltu â'r aelod o staff agosaf.



## Corfforol

Ni ddylech symud na thrafod unrhyw bethau trwm: gall y rhain gynnwys bocsys, cyfarpar a chleifion.

Mae risg y byddwch chi'n teimlo'n sâl yn gorfforol ar ôl gweld gweithdrefnau meddygol. Mae hyn yn hollol normal, ac mae'r mwyafrif o bobl yn teimlo fel llewygu'r tro cyntaf iddyn nhw weld llawdriniaeth er enghraifft. Os bydd hyn yn digwydd, cofiwch ddweud wrth aelod o'r staff ar unwaith. Os byddwch chi'n teimlo fel llewygu neu'n sâl, dylech eistedd i lawr neu adael y lle pa un bynnag sydd fwyaf priodol. Mae risg o anaf os byddwch chi'n llewygu.

Mae risg o gamdrin corfforol gan gleifion neu ymwelwyr yn y sefydliad GIG. Byddwch chi'n cael eich goruchwyllo bob amser yn ystod sesiwn clinigol ac felly, ystyrir bod y risg hwn yn isel. Rhwng sesiynau, cynghorir chi i gymryd rhagofalon arferol wrth gerdded i mewn ac o gwmpas rhannau mewnol ac allanol safle'r ysbyty i sicrhau eich diogelwch. Gall hyn gynnwys peidio â cherdded mewn mannau sy'n ynysig neu'n anghyfnedd.

## Rheoli Heintiau

Rhaid i bob disgybl/myfyriwr fydd yn arsylwi mewn maes clinigol/cleifion gael eu himiwneddio yn erbyn TB. Gofynnir i chi gadarnhau hyn ar eich datganiad iechyd.

Rhaid i chi hefyd fod yn ymwybodol y gall bod mewn amgylchedd ysbyty olygu y bydd amlygiad i firysau a heintiau eraill yn uwch nag mewn amgylchedd arferol. Fodd bynnag, ni fydd yr heintiau'n wahanol i'r rhai y gallwch ddod ar eu traws yn eich bywyd bob dydd. Ni fyddwn yn disgwyl i chi weithio mewn meysydd, na gyda grwpiau cleifion, lle byddai arsylwi'n cario risg uchel o heintiau.

Ni ddylai disgyblion/myfyrrwyr ddod i gysylltiad â hylifau corff ond byddwch yn ymwybodol y gellir bod risg o gyswllt mewn sefyllfaoedd annisgwyl.

Er mwyn lleihau'r risg o haint, rhaid i chi ddilyn cyfarwyddiadau gan aelodau'r staff bob amser. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod eich safonau hylendid personol yn hynod uchel. Rhaid i chi olchi eich dwylo ar ddechrau ac ar ddiwedd pob sesiwn ac os byddwch chi'n defnyddio'r toiled.

Ni ddylech ar unrhyw gyfrif gyffwrdd â siarps (nodwyddau neu bethau siarp eraill) a phan mewn meysydd clinigol, dylech fod yn hynod ofalus ble byddwch chi'n rhoi eich dwylo a gwirio cyn i chi eistedd i lawr. Peidiwch â rhoi eich dwylo ar eiddo cleifion.

## Amlygiant i sylweddau

Bydd ysbyty'n defnyddio nifer o sylweddau peryglus. Ni fydd disgwyl i chi ymdrin ag unrhyw sylweddau a ystyrir fel pethau peryglus. Ni ddylech gyffwrdd ag unrhyw sylwedd heblaw eich bod yn sicrhau eich bod yn gwybod beth yw ac nad yw'n beryglus. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fyddwch chi'n arsylwi mewn meysydd clinigol.

## Risg o Ddamweiniau

Bydd sefyllfa ysbyty efallai'n newydd i chi, ac nid ydych yn aelod cymwys o'r staff nac yn fyfyrwr clinigol. Felly, byddwch chi mewn mwy o risg o ddamweiniau nag aelodau eraill o'r staff neu fyfyrwyr. Er mwyn lleihau risgiau o'r fath, byddwch chi'n cael eich goruchwyllo bob amser wrth arsylwi ar sesiwn clinigol. Ar adegau eraill, rhaid i chi sicrhau mai dim ond i ardaloedd lle cawsoch ganiatâd i fynd i mewn y byddwch chi'n mynd ac mai dim ond gweithdrefnau a drefnwyd yr ydych chi'n eu harsylwi o dan oruchwyliaeth. Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus ac yn gadael unrhyw ardal ar unwaith os gofynnir i chi wneud hynny.

## I gloi

Os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth uchod yn achosi pryder i chi, neu'n aneglur, cofiwch drafod hyn gyda eich goruchwylwr neu â'r cydlynnydd profiad gwaith. Cofiwch hefyd roi gwybod i'ch goruchwylwr neu'r cydlynnydd profiad gwaith os bydd gennyh unrhyw bryder neu ofid neu eich bod angen help neu gefnogaeth yn ystod eich cyfnod gyda ni.

# Templed 9: Tasgau clinigol a awgrymir ar gyfer myfyrwyr profiad gwaith

**Dyma enghreifftiau o'r tasgau fyddai'n briodol ar gyfer myfyrwyr profiad gwaith. Dylid cyflawni pob tasg gyda chaniatâd y claf.**

## Nyrsio/cynorthwy-ydd Nyrsio:

- Cynorthwyo gyda gwneud gwelyau
- Gwyllo arsylwi
- Arsylwi ar gwblhau siart diodydd
- Cynorthwyo gyda bwydlenni
- Siarad â chleifion
- Arsylwi ar ddosbarthu cyffuriau
- Arsylwi ar osod rhwymynnau syml gyda chaniatâd y claf
- Arsylwi ar drosglwyddo
- Mynychu cyfarfod tîm
- Mynychu taith ward gyda chaniatâd y claf
- Arsylwi ar nyrs yn rhyddhau claf gyda chaniatâd y claf

Gall grwpiau staff eraill ymwneud hefyd â myfyrwyr profiad gwaith. Dyma rai awgrymiadau. Mae'n bosibl y bydd eich adran yn ymdrin â phroffesiynau eraill y gellir cysylltu â nhw.

## Clerc Ward:

- Siarad â chlerc ward i ddarganfod beth sydd ynghlwm â'r swydd
- Ateb y ffôn
- Cynorthwyo gyda ffeilio
- Mewnbynnu data ar gyfrifiadur o dan oruchwyliaeth clerwr ward.

## Ffisiotherapyddion:

- Siarad â'r ffisiotherapydd a darganfod gofynion y rôl
- Arsylwi ar ffisiotherapydd yn trin y claf gyda chaniatâd y claf
- Arsylwi ar ffisiotherapydd yn rhyddhau claf gyda chaniatâd y claf

## Fferyllydd:

- Siarad â'r fferyllydd a darganfod gofynion y rôl

## Cynorthwy-wyr cyffredinol:

- Darganfod rôl y cynorthwy-ydd cyffredinol
- Arsylwi ar y broses o baratoi a gweini prydau bwyd

## Meddygon:

- Darganfod gofynion y swyddi
- Arsylwi arnyh nhw'n gweithio gyda'r claf gyda chaniatâd y claf.

## Therapydd Galwedigaethol/Therapydd Iaith a Lleferydd:

- Darganfod gofynion y swyddi
- Arsylwi arnyh nhw'n gweithio gyda'r claf gyda chaniatâd y claf.

## Trosolwg

Mae'n rhaid bod gan y sefydliad GIG ganllawiau clir ar leoliadau a'i fod yn glynu wrthyn nhw. Cyfrifoldeb y person sy'n gyfrifol am ofal clinigol pob claf yw penderfynu ar faint cyfranogiad y person ifanc gan ystyried darganfyddiadau'r asesiad risg a'r protocolau clinigol perthnasol. Rhaid i chi hefyd sicrhau bod y claf wedi rhoi caniatâd cyn bod person ifanc yn cael bod yn bresennol a/neu gyfranogi. Pan na cheir caniatâd neu nad yw'n bosibl cael y caniatâd hwnnw, ni fydd y person ifanc yn cael bod yn rhan o'r gweithgaredd.

## Templed 10: Rhestr wirio ymsefydlu

Enw: \_\_\_\_\_

Dyddiadau Profiad Gwaith/Arsylwi: \_\_\_\_\_

### Manylion Cyswllt mewn Argyfwng

Enw: \_\_\_\_\_

Rhif Ffôn: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad: \_\_\_\_\_

1. Cytundeb profiad gwaith
2. Oriau gwaith
3. Seibiannau a thoiledau
4. Dillad
5. Iechyd a diogelwch/asesu risg
6. Gweithdrefnau argyfwng
7. Cyfrinachedd
8. Cyswllt adran
9. Bathodyn gwirio

Llofnod myfyriwr: \_\_\_\_\_

Llofnod Goruchwyliwr: \_\_\_\_\_

Sylwadau ar gyfer y Cofnodion: \_\_\_\_\_

---



---



---



---



---

## Templed 11: Dyddiadur dyddiol

Mae'n bosibl y bydd myfyriwr yn dod gyda'u trefnydd Gyrfa Cymru a'i bod yn well ganddyn nhw eu defnyddio.

Enw: \_\_\_\_\_

Adran: \_\_\_\_\_

Diwrnod (ychwanegwch y dyddiad)	Oriau	Pwy oeddwn i'n ei gysgodi/arsylwi/ yn gweithio gyda	Yr hyn roeddwn i'n ei ddysgu
1			
2			
3			
4			
5			
6			

# Templed 12:

## Ffurflen werthuso: Cyfrinachol

I'n galluogi i asesu pa mor ddefnyddiol roeddech chi'n ystyried eich profiad gwaith/arsylwi yn yr ysbyty hwn, byddai'n hynod ddefnyddiol petaech chi'n ateb y cwestiynau canlynol. Gellir defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu rhaglenni ar gyfer myfyrwyr y dyfodol.

### Nodwch beth oedd eich lleoliad os gwelwch yn dda

---

---

---

### 1. Beth oeddech chi'n gobeithio ei ddysgu o'ch lleoliad yn yr ysbyty hwn?

---

---

---

### 2. Ydych chi wedi llwyddo i wneud hyn? Ydw Nac ydw

### 3. Ydych chi'n ystyried bod eich lleoliad wedi rhoi gwell dealltwriaeth i chi o'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn ysbyty? Ydw Nac ydw

Os nac ydw, a fyddech chiystal â rhoi manylion:

---

---

---

### 4. Ydych chi'n teimlo bod strwythur y rhaglen yn:

Foddhaol/Anfoddhaol

### 5. Beth oedd y peth mwyaf diddorol yn eich barn chi?

---

---

---

### 6. Beth oedd y peth lleiaf diddorol yn eich barn chi?

---

---

---

### 7. A oes unrhyw sesiynau neu ymweliadau ychwanegol ag adrannau eraill yn yr ysbyty y dylid eu cynnwys yn y rhaglen yn eich barn chi? Oes Nac oes

Os oes, nodwch os gwelwch yn dda:

---

---

---

### 8. Yn eich barn chi, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol petaech chi wedi cael mwy o wybodaeth cyn eich lleoliad? Byddai Na fyddai

A fyddech chiystal â rhoi manylion:

---

---

---

### 9. Ydy eich lleoliad wedi dylanwadu ar eich dewis o yrfa mewn unrhyw fodd?

Ym mha fodd?

---

---

---

### 10. A fyddech chiystal ag ychwanegu unrhyw sylw arall a fyddai'n ddefnyddiol yn eich barn chi:

---

---

---

---

---

Diolch i chi am gwblhau'r holiadur hwn. A fyddech chiystal â'i ddychwelyd i:

[Rhowch eich manylion cyswllt yma.]

## Templed 13: Adroddiad y Goruchwyliwr

Enw'r Disgybl/Myfyriwr: \_\_\_\_\_

Cyfeiriad y lleoliad: \_\_\_\_\_

Enw'r Goruchwyliwr/teitl y swydd: \_\_\_\_\_

	Rhagorol	Da	Derbyniol	Llai na Derbyniol
Presenoldeb				
Prydlondeb				
Ymddangosiad				
Dibynadwyedd				
Gallu i weithio o dan oruchwyliaeth				
Gallu i weithio ar ei ben/phen ei hun				
Defnydd o fenter				
Gallu i gyfathrebu				
Gweithio gydag eraill/ mewn tîm				
Perthynas gyda grŵp cleientiaid				
Brwdfrydedd				

### Sylwadau:

Llofnod y Goruchwyliwr \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Llofnod y disgybl/myfyriwr: \_\_\_\_\_ Dyddiad: \_\_\_\_\_

Diolch i chi am gwblhau'r holiadur hwn. A fydddech chi cystal â'i ddychwelyd i:

*[Rhowch eich manylion cyswllt yma]*

Dylai pob disgybl/myfyriwr gadw copi o'r ffurflen hon

## ADENDWM CYFREITHIOL

Yn ychwanegol at y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (HSAWA) mae rheoliadau eraill sy'n rhoi cyfrifoldeb ar gyflogwyr. Yn benodol mae rheoliad 19 Rheoli Rheoliadau Iechyd a Diogelwch 1999 yn mynnu bod cyflogwr sy'n cyflogi person ifanc (rhywun o dan 18 oed) yn diogelu'r person ifanc hwnnw rhag risgiau sy'n codi o'i ddiffyg/diffyg profiad, diffyg ymwybyddiaeth o risgiau sy'n bodoli neu rai posibl neu o'i ddiffyg/diffyg aeddfedrwydd. Bydd y rheoliadau hyn yn cynnwys y berthynas nad sy'n gyflogai-cyflogwr y bydd y sefydliadau iechyd yn eu sefydlu. Fodd bynnag, byddai'n ddoeth cydymffurfio â'r rheoliadau hyn hyd yn oed os nad ydyn nhw o reidrwydd yn gymwys. Mae dyletswydd gofal ar sefydliadau iechyd tuag at y bobl ifanc hyn a gallai methu â dilyn gofynion statudol gael ei ddefnyddio fel tystiolaeth o esgeulustod. Dylid cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a Diogelwch y mae sefydliadau iechyd mae'n sicr yn gyfarwydd â nhw fel arfer.

